Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot

**Cynllun Datblygu Lleol 2011 - 2026**

# Yr Amgylchedd Hanesyddol

## Canllawiau Cynllunio Atodol

### Atodlen Adeiladau o Bwysigrwdd Lleol

(Ebrill 2019)







www.npt.gov.uk/ldp

Neath Port Talbot
Castell-nedd Port Talbot
County Borough Council Cyngor Bwrdeistref Sirol

**Atodlen Adeiladau o Bwysigrwdd Lleol** ........ **1**

**Cwm Afan** ........ **2**

Y Cymer ........ 2

Glyncorrwg ........ 12

Gwynfi ........ 18

Pelena ........ 28

**Dyffryn Aman** ........ **34**

Gwaun-cae-Gurwen ........ 34

Brynaman Isaf ........ 44

**Cwm Dulais** ........ **56**

Y Creunant ........ 56

Onllwyn ........ 66

Blaendulais ........ 70

**Castell-nedd** ........ **78**

Aberdulais ........ 78

Dwyrain Llansawel ........ 88

Gorllewin Llansawel ........ 118

Gogledd Bryncoch ........ 122

De Bryncoch ........ 124

Llangatwg ........ 128

Canol Coedffranc ........ 134

Gogledd Coedffranc ........ 142

Gorllewin Coedffranc ........ 148

Dyffryn ........ 160

Dwyrain Castell-nedd ........ 170

Gogledd Castell-nedd ........ 186

De Castell-nedd ........ 218

Tonna ........ 224

**Cwm Nedd** ........ **226**
- Blaengwrach ........ 226
- Glyn-nedd ........ 234
- Resolfen ........ 250

**Pontardawe** ........ **262**
- Yr Alltwen ........ 262
- Pontardawe ........ 274
- Rhos ........ 320
- Trebannws ........ 326

**Port Talbot** ........ **332**
- Aberafan ........ 332
- Baglan ........ 342
- Bryn a Cwmafan ........ 348
- Margam ........ 368
- Port Talbot ........ 370
- Gorllewin Sandfields ........ 410
- Taibach ........ 414


**Cwm Tawe** ........ **430**
- Cwmllynfell ........ 430
- Godre'r Graig ........ 436
- Ystalyfera ........ 438

# Atodlen Adeiladau o Bwysigrwdd Lleol

## Y Cymer

| | | | |
|---|---|---|---|
| Ward:<br><br>Y Cymer | Anheddiad:<br><br>Y Cymer | Enw'r Adeilad: Canolfan yr Henoed Brynsiriol | |
| Cyf: CYM002 | Cam Dilysu I | Cam II | Cyfeirnod Grid: E286044 B196120 |
| Cyfeiriad: Ar gornel Heol yr Orsaf a Stryd Margam | | | |

Cynllun o Leoliad y Safle



Disgrifiad:

Adeilad cyhoeddus amlwg ar safle canolog a ddefnyddiwyd yn fwyaf diweddar fel canolfan ddydd i'r henoed. Mae'n adeilad o waith cerrig gyda manylion ac addurniadau cerrig nadd. Mae ganddo bortsh/balconi amlwg a thŵr cloc sy'n dirnod.




| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Diddordeb pensaernïol | X | Diddordeb hanesyddol | | Cysylltiad hanesyddol/ diwylliannol | X | Gwerth o ran cymeriad y grŵp/ yr anheddiad | X | Adeiladau lleol sy'n hen neu'n brin | X |

JCyfiawnhad dros Ystyried: Adeilad diddorol a llawn cymeriad sy'n dirnod pwysig ar gyffordd amlwg yn yr anheddiad.

Nodiadau:

| | | | |
|---|---|---|---|
| Ward: Y Cymer | Anheddiad: Y Cymer | Enw’r Adeilad: Banc HSBC gynt | |
| Cyf: CYM003 | Cam Dilysu I | Cam II | Cyfeirnod Grid: E286222 N196103 |
| Cyfeiriad: Heol yr Orsaf | | | |

Cynllun o Leoliad y Safle



Disgrifiad

Adeilad unllawr bach a arferai fod yn fanc, gyda blaen crwm hynod o waith cerrig sy'n cynnwys tair ffenestr fawr a phortsh mynediad sylweddol. Mae ganddo do llechi ar ffurf pyramid y tu ôl i barapet cerrig.



| Diddordeb pensaernïol | X | Diddordeb hanesyddol | | Cysylltiad hanesyddol/ diwylliannol | X | Gwerth o ran cymeriad y grŵp/ yr anheddiad | X | Adeiladau lleol sy'n hen neu'n brin | X |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|

Cyfiawnhad dros Ystyried:

Adeilad hynod a llawn cymeriad a arferai fod yn fanc yng nghanol yr anheddiad. Mae'n cael/wedi ei addasu at ddefnydd preswyl.

Nodiadau

<table>
<tr><td>Ward:<br><br>Y Cymer</td><td>Anheddiad:<br><br>Y Cymer</td><td colspan="2">Enw’r Adeilad: Tŷ Sant John</td></tr>
<tr><td>Cyf: CYM004</td><td>Cam Dilysu I</td><td>Cam II</td><td>Cyfeirnod Grid: E286117 N196118</td></tr>
<tr><td colspan="4">Cyfeiriad: Ar gornel Heol yr Orsaf a Heol yr Ysgol</td></tr>
</table>

Cynllun o Leoliad y Safle



Disgrifiad

Adeilad eglwys yn y dull gothig traddodiadol sydd bellach wedi'i droi'n breswylfa. Mae'n adeilad o waith cerrig garw gyda cherrig lliw hufen o amgylch y ffenestri a'r drysau o dan do llechi, sydd bellach yn cynnwys ffenestri to. Mae ganddo bortsh mynediad amlwg a chlochdy.



| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Diddordeb pensaernïol | X | Diddordeb hanesyddol | | Cysylltiad hanesyddol/ diwylliannol | X | Gwerth o ran cymeriad y grŵp/ yr anheddiad | X | Adeiladau lleol sy'n hen neu'n brin | |


Cyfiawnhad dros Ystyried:

Adeilad eglwys traddodiadol ar dir sy'n uwch na lefel y ffordd fawr mewn lleoliad canolog. Mae'n dyddio o ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

Nodiadau: Coflein: wedi'i gynnwys – rhan o Arolwg Eglwysi Hanesyddol Cadw (Gogledd-orllewin Morgannwg)

<table>
<tr><td>Ward:<br><br>Y Cymer</td><td>Anheddiad:<br><br>Y Cymer</td><td colspan="2">Enw’r Adeilad: Yr orsaf reilffordd gynt</td></tr>
<tr><td>Cyf: CYM005</td><td>Cam Dilysu I</td><td>Cam II</td><td>Cyfeirnod Grid: E285971 N196194</td></tr>
<tr><td colspan="4">Cyfeiriad: Ystafelloedd Lluniaeth, y Cymer</td></tr>
</table>

Cynllun o Leoliad y Safle



Disgrifiad

Adeilad yr orsaf reilffordd gynt a'i phlatfform a ddefnyddir bellach i werthu bwyd a diod. Mae'n adeilad o waith cerrig gyda brics lliw hufen o amgylch y drws a'r ffenestri, ac mae ganddo do llechi.



| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Diddordeb pensaernïol | | Diddordeb hanesyddol | X | Cysylltiad hanesyddol/ diwylliannol | X | Gwerth o ran cymeriad y grŵp/ yr anheddiad | X | Adeiladau lleol sy'n hen neu'n brin | X |

Cyfiawnhad dros Ystyried:

Adeilad gorsaf reilffordd traddodiadol sydd wedi'i weddnewid. Mae'n enghraifft brin sydd wedi goroesi ac yn ein hatgoffa am hanes lleol a diwydiant yr ardal.

Nodiadau

| | | | |
|---|---|---|---|
| Ward:<br><br>Y Cymer | Anheddiad:<br><br>Y Cymer | Enw'r Adeilad: Capel Unedig Rhydd y Methodistiaid | |
| Cyf: CYM006 | Cam Dilysu I | Cam  II | Cyfeirnod Grid: E286036 N196068 |
| Cyfeiriad: Heol Brytwn | | | |

Cynllun o Leoliad y Safle



Disgrifiad

Capel bach traddodiadol mewn safle amlwg ar gornel y stryd. Mae ganddo orffeniad rendr gwyn a tho llechi, gyda ffenestri bwa ar y wedd flaen a brics addurniadol o gwmpas agoriadau'r ffenestri a'r drws.



| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Diddordeb pensaernïol | X | Diddordeb hanesyddol | | Cysylltiad hanesyddol/ diwylliannol | X | Gwerth o ran cymeriad y grŵp/ yr anheddiad | X | Adeiladau lleol sy'n hen neu'n brin | |

Cyfiawnhad dros Ystyried:

Capel bach amlwg ar gornel y brif ffordd yng nghanol yr anheddiad.

Nodiadau: Coflein: Wedi'i adeiladu cyn 1918

## Glyncorrwg

| | | | |
|---|---|---|---|
| Ward:<br><br>Glyncorrwg | Anheddiad:<br>Glyncorrwg | Enw’r Adeilad: Bethel House | |
| Cyf: GLC002 | Cam Dilysu I | Cam II | Cyfeirnod Grid: E287637<br>N199202 |
| Cyfeiriad: Ar gornel Commercial Street a Stryd Melyn | | | |

Cynllun o Leoliad y Safle



Disgrifiad

Adeilad mawr a arferai fod yn gapel gyda ffasâd o waith cerrig garw a nodweddion cerrig llyfn, gan gynnwys bandiau, amgylchyniadau'r drws a'r ffenestri, y conglfeini a phorth y brif fynedfa. Ffenestri pen crwn sydd bellach â gwydrau newydd yn lle'r hen rai.



| Diddordeb pensaernïol | X | Diddordeb hanesyddol | | Cysylltiad hanesyddol/ diwylliannol | X | Gwerth o ran cymeriad y grŵp/ yr anheddiad | X | Adeiladau lleol sy'n hen neu'n brin | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|

Cyfiawnhad dros Ystyried: Adeilad capel mawr, sydd wedi'i addasu at ddibenion preswyl. Mae ei grynswth sylweddol yn ei wneud yn adeilad mawreddog, a nodwedd amlycaf y stryd sydd yng nghanol yr anheddiad.

Nodiadau: Coflein: Adeiladwyd Bethel, Capel y Bedyddwyr, yn 1885, a'i addasu/ailadeiladu yn 1890 ac eto yn 1905. Mae'n adeilad o waith cerrig a godwyd yn y dull Is-glasurol gyda mynedfa yn y talcen. Roedd y capel yn wag erbyn 2006.

<table>
<tr><td>Ward: Glyncorrwg</td><td>Anheddiad: Glyncorrwg</td><td colspan="2">Enw’r Adeilad: Eglwys ac Ysgoldy Unedig y Methodistiaid</td></tr>
<tr><td>Cyf: GLC003</td><td>Cam Dilysu I</td><td>Cam II</td><td>Cyfeirnod Grid: E287711 N199124</td></tr>
<tr><td colspan="4">Cyfeiriad: Heol y Bryn</td></tr>
</table>

Cynllun o Leoliad y Safle



Disgrifiad - Eglwys wag ynghyd ag ysgoldy/neuadd. Adeilad o waith cerrig gyda ffenestri cywrain sydd hefyd o waith cerrig. Dyddiedig 1913. Mae gwaith cerrig tebyg ar yr ysgoldy/neuadd y drws nesaf. Waliau, stepiau a rheiliau cyfatebol (Gweler disgrifiad Coflein isod)



Google

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Diddordeb pensaernïol | X | Diddordeb hanesyddol | | Cysylltiad hanesyddol/ diwylliannol | X | Gwerth o ran cymeriad y grŵp/ yr anheddiad | X | Adeiladau lleol sy'n hen neu'n brin | |

Cyfiawnhad dros Ystyried: Adeilad eglwys mawreddog o waith cerrig gydag ysgoldy neu neuadd y drws nesaf iddo. Nodweddion diddorol

Nodiadau: Coflein: Adeiladwyd Capel Unedig Rhydd y Methodistiaid yn 1913, gan y pensaer T Gibb o Bort Talbot, yn y dull Gothig gyda mynedfa yn y talcen. Nodwedd amlycaf y ffasâd yw'r ffenestr fawr addurnedig gyda rhwyllwaith cerrig a ffenestri gwydr plwm gyda motifau Art Nouveau. O dan y ffenestr hon, mae dau ddrws yn y canol.

Capel Beibl Cristnogol gerllaw: Capel a adeiladwyd yn 1888 yn y dull pen crwn syml, gyda mynedfa yn y talcen. Mae'n adeilad o waith cerrig gyda bandiau brics melyn. Statws: Gwag

| | | | |
|---|---|---|---|
| Ward:<br><br>Glyncorrwg | Anheddiad:<br>Glyncorrwg | Enw'r Adeilad: Eglwys Sant Ioan Fedyddiwr | |
| Cyf: GLC004 | Cam Dilysu I | Cam II | Cyfeirnod Grid: E287416 N199294 |
| Cyfeiriad: Stryd yr Eglwys | | | |

Cynllun o Leoliad y Safle



Disgrifiad

Eglwys blwyf fach mewn mynwent â wal o'i chwmpas. Adeilad o waith cerrig gyda tho llechi a chlochdy dwbl cywrain. (Gweler disgrifiad Coflein isod)



Google

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Diddordeb pensaernïol | X | Diddordeb hanesyddo | X | Cysylltiad hanesyddol/ diwylliannol | X | Gwerth o ran cymeriad y grŵp/ yr anheddiad | X | Adeiladau lleol sy'n hen neu'n brin | |

Cyfiawnhad dros Ystyried:


Eglwys blwyf fach, draddodiadol ei chynllun. Mewn llecyn amlwg ar ochr y bryn uwchben y pentref, mewn mynwent â wal o'i chwmpas.

Nodiadau: Coflein: Lleolir Eglwys Sant Ioan ar ochr ogleddol Stryd y Castell, ar ochr y bryn uwchben y tai. Adeiladwyd yr eglwys yn y dull unionsyth yn unol â dyluniadau E.M.Bruce Vaughan yn 1905, ar safle hen eglwys. Fe'i hadeiladwyd â meini tywod wyneb garw Pennant gyda cherrig nadd Forest. Mae'r eglwys yn cynnwys corff a changell is, clochdy uwchben y talcen gorllewinol, ale ogleddol ac ale groes, a phortsh talcennog deheuol. Y tu mewn mae colofnau'r arcêd yn wythochrog ac mae'r bwâu yn rhai pedwar canolbwynt. Mae'r ffitiadau'n cynnwys bedyddfaen canoloesol wythochrog. Ymhlith y gwydr lliw, mae gweithiau gan Jones & Willis (1909) a Newbery (1906 ac 1916).

## Gwynfi

| Ward: Gwynfi | Anheddiad: Abergwynfi | Enw’r Adeilad: Capel Salem | |
|---|---|---|---|
| Cyf: GWY001 | Cam Dilysu I | Cam II | Cyfeirnod Grid: E289205 N196286 |
| Cyfeiriad: Commercial Street, Abergwynfi | | | |

Cynllun o Leoliad y Safle



Disgrifiad: Capel mawreddog mewn lleoliad amlwg yn uwch na'r ffordd. Mae rendr wedi'i baentio ar wedd flaen yr adeilad gyda manylion cerrig o amgylch y ffenestri, ac ar y conglfeini hefyd. To llechi. Grisiau, waliau a gatiau/rheiliau amlwg. Dyddiedig 1887 (Gweler disgrifiad Coflein isod).



| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Diddordeb pensaernïol | X | Diddordeb hanesyddol | | Cysylltiad hanesyddol/ diwylliannol | X | Gwerth o ran cymeriad y grŵp/ yr anheddiad | X | Adeiladau lleol sy'n hen neu'n brin | |

Cyfiawnhad dros Ystyried:

Adeilad capel trawiadol, amlwg yng nghanol Abergwynfi, sy'n dirnod ac yn rhoi cymeriad unigryw i'r anheddiad.

Nodiadau: Coflein: Adeiladwyd Caersalem, Capel y Bedyddwyr yn 1879 a'i ailadeiladu/addasu yn 1887. Mae'r capel presennol, sy'n dyddio o 1887, yn adeilad yn y dull Is-glasurol gyda gwaith cerrig yn tynnu sylw at yr agoriadau (pen gwastad ar y llawr gwaelod a phen crwn ar y llawr uchaf). Mae'r un gwaith cerrig ar y conglfeini hefyd. Mae'r pediment yn cynnwys plac ac arno'r arysgrif 'CAERSALEM CAPEL Y BEDYDDWYR A.D. 1887'. Mae gan yr adeilad fynedfa yn y talcen a drws pen crwn sy'n cynnwys ffenestr linter siâp hanner cylch gyda rhwyllwaith pren crwn, syml.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Ward:<br><br>Gwynfi | Anheddiad: Abergwynfi | Enw’r Adeilad: St. Gabriel’s Court | |
| Cyf: GWY003 | Cam Dilysu I | Cam II | Cyfeirnod Grid: E288907 N196462 |
| Cyfeiriad: Heol y Graig, Abergwynfi | | | |

Cynllun o Leoliad y Safle



Disgrifiad

Hen eglwys mewn man amlwg ar y ffordd i mewn i Abergwynfi. Mae’r adeilad bellach wedi’i addasu yn anheddau, gyda rhai drysau/ffenestri newydd ansensitif. Mae’n adeilad o waith cerrig gyda manylion cerrig goleuach, gan gynnwys o amgylch y ffenestri a’r drysau. (Gweler disgrifiad Coflein isod).



| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Diddordeb pensaernïol | X | Diddordeb hanesyddol | | Cysylltiad hanesyddol/ diwylliannol | X | Gwerth o ran cymeriad y grŵp/ yr anheddiad | X | Adeiladau lleol sy’n hen neu’n brin | |


Cyfiawnhad dros Ystyried:

Adeilad eglwys mawr, ar safle amlwg y gellir ei weld o ochr arall y cwm, sydd wedi cadw rhai nodweddion gwreiddiol ac yn rhoi cymeriad unigryw i’r ardal leol.

Nodiadau: Coflein: Saif eglwys Sant Gabriel ar ochr y bryn ychydig y tu allan i Abergwynfi, gan edrych dros Flaengwynfi. Adeiladwyd yr eglwys yn 1893-4, gan G.E.Halliday, yn y dull lansed, gyda ffenestr rhosyn yn y pen gorllewinol. Bwriedid iddi wasanaethu ‘cymuned na chyrhaeddodd byth’ ac mae bellach yn wag.

<table>
<tr><td>Ward:<br><br>Gwynfi</td><td>Anheddiad:<br><br>Blaengwynfi</td><td colspan="3">Enw’r Adeilad: Llyfrgell Blaengwynfi</td></tr>
<tr><td>Cyf: GWY004</td><td colspan="2">Cam Dilysu I</td><td>Cam II</td><td>Cyfeirnod Grid: E289217 N196464</td></tr>
<tr><td colspan="5">Cyfeiriad: Heol Jersey, Blaengwynfi</td></tr>
</table>

Cynllun o Leoliad y Safle



Disgrifiad - Adeilad neuadd gyhoeddus a llyfrgell. Adeilad yn null sefydliadol traddodiadol oes Victoria o waith cerrig gyda thalcenni cymesur a nodweddion gwaith cerrig, portsh mynediad canolog a grisiau, gyda phortshys eraill, grisiau a rheiliau. Yn y blaen, mae'n adeilad unllawr ac yn dri llawr yn y cefn gyda thoeon llechi ar oleddf.





| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Diddordeb pensaernïol | X | Diddordeb hanesyddol | | Cysylltiad hanesyddol/ diwylliannol | X | Gwerth o ran cymeriad y grŵp/ yr anheddiad | X | Adeiladau lleol sy'n hen neu'n brin | |

Cyfiawnhad dros Ystyried:Adeilad diwylliannol/cymunedol trawiadol yng nghanol yr anheddiad, sy'n cynnwys llyfrgell gyhoeddus. Mae gan yr adeilad werth sylweddol o ran cymeriad yr anheddiad.

Nodiadau: Coflein: Roedd Neuadd y Gweithwyr Abergwynfi a Blaengwynfi, a agorwyd yn 1901, yn darparu llyfrgell ac ystafell ddarllen, neuadd gyhoeddus, ystafell gêmau a nodweddion eraill cyffredin i sefydliadau gweithwyr yn yr oes hon. Roedd sinema yma cyn y Rhyfel Byd Cyntaf, a pharhaodd i weithredu am y rhan fwyaf o'r ganrif ddiwethaf. I ddechrau, rheolwyd y sinema gan H. Anderson & Co ac roedd lle i 800 o bobl eistedd. Yn y blynyddoedd rhwng y rhyfeloedd, bu'r gweithwyr yn gweithredu'r sinema gyda llai o seddi (448). Mae'r adeilad yn dal i gael ei ddefnyddio fel llyfrgell gyhoeddus a chlwb cymdeithasol heddiw.

| Ward: Gwynfi | Anheddiad: Blaengwynfi | Enw’r Adeilad: Tunnel Hotel | |
|---|---|---|---|
| Cyf: GWY005 | Cam Dilysu I | Cam II | Cyfeirnod Grid: E288788 N196876 |
| Address: Heol y Nant, Blaengwynfi | | | |

Cynllun o Leoliad y Safle



Disgrifiad

Adeilad gwesty mawr ac amlwg o waith brics coch gyda manylion gwyn. Mae ganddo borth mynediad amlwg, talcenni blaen a ffenestri trawiadol.




| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Diddordeb pensaernïol | X | Diddordeb hanesyddol | | Cysylltiad hanesyddol/ diwylliannol | X | Gwerth o ran cymeriad y grŵp/ yr anheddiad | X | Adeiladau lleol sy'n hen neu'n brin | |

Cyfiawnhad dros Ystyried:

Adeilad gwesty sylweddol sydd â gwerth pensaernïol a rhywfaint o gysylltiad hanesyddol. Mae'n adeilad brics coch mewn lleoliad amlwg y gellir ei weld o ochr arall y cwm ac o fannau agosach.

Nodiadau:

<table>
<tr><td>Ward:<br><br>Gwynfi</td><td>Anheddiad:<br>Blaengwynfi</td><td colspan="3">Enw’r Adeilad: Siop Gydweithredol Gymunedol</td></tr>
<tr><td>Cyf: GWY006</td><td colspan="2">Cam Dilysu I</td><td>Cam II</td><td>Cyfeirnod Grid: E289086<br>N196562</td></tr>
<tr><td colspan="5">Cyfeiriad: 133/134 Heol Jersey</td></tr>
</table>

Cynllun o Leoliad y Safle



Disgrifiad

Adeilad siop mawr, amlwg gyda manylion brics cywrain ar ei wedd flaen. Mae ffurf a chynllun gwreiddiol yr adeilad i'w gweld o hyd er gwaetha'r blaen siop modern a osodwyd yn lle'r hen un.




| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Diddordeb pensaernïol | X | Diddordeb hanesyddo | | Cysylltiad hanesyddol/ diwylliannol | X | Gwerth o ran cymeriad y grŵp/ yr anheddiad | X | Adeiladau lleol sy'n hen neu'n brin | |

Cyfiawnhad dros Ystyried:

Adeilad siop sylweddol mewn lleoliad amlwg gyda rhywfaint o ddiddordeb pensaernïol o hyd a pheth diddordeb neu gysylltiad hanesyddol yn ymwneud â phwysigrwydd yr anheddiad yn y gorffennol.

Nodiadau:

## Pelena

| | | | |
|---|---|---|---|
| Ward:<br><br>Pelena | Anheddiad:<br><br>Efail Fach | Enw'r Adeilad: The Colliers, Glanyrafon | |
| Cyf: PEL001 | Cam Dilysu I | Cam II | Cyfeirnod Grid: E278733 N195323 |
| Cyfeiriad: Efail Fach | | | |

Cynllun o Leoliad y Safle



Disgrifiad:

Tŷ Tafarn mawr traddodiadol mewn lle amlwg wrth ymyl y ffordd. Blaen cymesur o rendr wedi'i beintio gyda manylion brics ar fwâu'r ffenestri a ffrâm bren ar y talcen blaen. Estyniad sylweddol yn y cefn.




Google

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Diddordeb pensaernïol | | Diddordeb hanesyddol | X | Cysylltiad Hanesyddol/ Diwylliannol | X | Gwerth o ran Cymeriad y Grŵp/ yr Anheddiad | X | Adeiladau Lleol sy'n Hen neu'n Brin | |

Cyfiawnhad dros ystyried:

Hen dŷ tafarn/bwyty sefydledig mewn man amlwg yng nghymuned Efail Fach.

Nodiadau:

| Ward:<br>Pelena | Anheddiad:<br>Efail Fach | Enw'r Adeilad: Capel Annibynnol |
|---|---|---|
| Ref: PEL002 | Cam Dilysu I | Cam II |
| Address: Efail Fach | | |

Cynllun o Leoliad y Safle



Disgrifiad. Capel bach oddi mewn i fynwent ar y llechwedd agored. Wedi'i adeiladu o gerrig gyda nodweddion bric lliw hufen, gan gynnwys amgylchyniadau'r ffenestri a'r conglfeini addurniadol



Google

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Diddordeb pensaernïol | X | Diddordeb hanesyddol | | Cysylltiad Hanesyddol/ Diwylliannol | X | Gwerth o ran Cymeriad y Grŵp/ yr Anheddiad | X | Adeiladau Lleol sy'n Hen neu'n Brin | |

Cyfiawnhad dros Ystyried:

Adeilad capel cymharol blaen oddi mewn i fynwent helaeth ar y llechwedd agored, sy'n darparu nodwedd tirnod trawiadol yn y pentref.

Nodiadau: Coflein: Nodwyd, ond dim gwybodaeth bellach

| | | | |
|---|---|---|---|
| Ward:<br><br>Pelena | Anheddiad:<br><br>Tonmawr | Enw'r Adeilad: Odyn Calch | |
| Cyf: PEL005 | Cam Dilysu I | Cam II: | Cyfeirnod Grid: E280350 N196318 |
| Cyfeiriad: Heol Tonmawr | | | |

Cynllun o Leoliad y Safle



Disgrifiad.

Gweddillion odyn calch yn ymyl y brif ffordd trwy Tonmawr. Strwythur cerrig sy'n rhan o'r bancyn ar ymyl y ffordd.



Google

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Diddordeb pensaernïol | | Diddordeb hanesyddol | X | Cysylltiad Hanesyddol/ Diwylliannol | X | Gwerth o ran Cymeriad y Grŵp/ yr Anheddiad | | Adeiladau Lleol sy'n Hen neu'n Brin | X |

Cyfiawnhad dros Ystyried:

Nodwedd hynod sydd wedi goroesi o hanes cynnar yr anheddiad.

Nodiadau:

## Gwaun-cae-Gurwen

| | | | |
|---|---|---|---|
| Ward:<br><br>Gwaun Cae Gurwen | Anheddiad:<br><br>Gwaun Cae Gurwen | Enw'r Adeilad: Capel Carmel | |
| Cyf: GCG001 | Cam Dilysu I: | Cam II: | Cyfeirnod Grid: E 270297 N 211899 |
| Cyfeiriad: Heol Cae Gurwen | | | |

Cynllun o Leoliad y Safle



Disgrifiad - Capel mawr o waith cerrig tywyll ag arysgrif ar ei wedd flaen yn nodi'r dyddiad 1877. [Gweler disgrifiad Coflein isod].



| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Diddordeb pensaernïol | X | Diddordeb hanesyddol | | Cysylltiad hanesyddol/ diwylliannol | X | Gwerth o ran cymeriad y grŵp/ yr anheddiad | X | Adeiladau lleol sy'n hen neu'n brin | |

Cyfiawnhad dros Ystyried: Capel mawr, amlwg ar y ffordd fawr sy'n dirnod hynod yn y gymuned. Gosodwyd rhai nodweddion newydd yn ddiweddar yn lle'r hen rai, gan gynnwys estyll tywydd.

Nodiadau: Coflein: Adeiladwyd Carmel, Capel yr Annibynwyr am y tro cyntaf yn 1821 a'i addasu yn 1829. Mae'r adeilad presennol yn dyddio o'r ailadeiladu a ddigwyddodd yn 1879 gan y penseiri Morgan & Jones o Abertawe, a oedd yn gweithio gyda'r pensaer John Humphreys o Drefforest. Codwyd yr adeilad hwn, sy'n dyddio o ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, yn y dull Clasurol, gyda mynedfa yn y talcen ac mae gwaith cerrig sgwâr ag wyneb garw ar y prif waliau ochr ac ar ffasâd y talcen. Mae'r bwa mawr yn y ffasâd yn nodwedd amlwg. Mae'r pyst ffenestri, y croeslathau a'r bandiau llorweddol yn waith cerrig tywodfaen llyfn, a defnyddiwyd briciau llyfn, lliw hufen o amgylch y ffenestri a'r portsh, ac ati. Mae llechi Cymru ar y toeon. Yn y cefn, mae festri o waith rwbel ac mae wyneb sment a phlastr ar estyniad y festri.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Ward:<br><br>Gwaun Cae Gurwen | Anheddiad:<br><br>Gwaun Cae Gurwen | Enw'r Adeilad: Siop ffrwythau, siop flodau a'r siop wag y drws nesaf | |
| Cyf: GCG002 | Cam Dilysu I: | Cam II: | Cyfeirnod Grid: E270294 N211876 |

Cyfeiriad: 57 - 63 Heol Cae Gurwen
Cynllun o Leoliad y Safle



Disgrifiad

Rhes o dair siop y mae eu blaenau siop traddodiadol wedi goroesi ynghyd â'u nodweddion gwreiddiol gan gynnwys ffrâm bren draddodiadol ffenestr y siop, drysau wedi'u gosod yn ôl o'r ffordd, pilastrau a byrddau arwyddion.



| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Diddordeb pensaernïol | X | Diddordeb hanesyddol | | Cysylltiad hanesyddol/ diwylliannol | X | Gwerth o ran cymeriad y grŵp/ yr anheddiad | X | Adeiladau lleol sy'n hen neu'n brin | |

Cyfiawnhad dros Ystyried:

Enghreifftiau prin o siopau sydd wedi goroesi ers dechrau'r ganrif ddiwethaf, ac wedi cadw nodweddion gwreiddiol eraill. Maen nhw'n gwneud cyfraniad sylweddol i gymeriad yr anheddiad.

Nodiadau:

<table>
<tr><td>Ward:<br><br>Gwaun Cae Gurwen</td><td>Anheddiad:<br><br>Cwmgors</td><td colspan="2">Enw’r Adeilad: Eglwys y Santes Fair</td></tr>
<tr><td>Cyf: GCG004</td><td>Cam Dilysu I:</td><td>Cam II</td><td>Cyfeirnod Grid: E 270491 N 211372</td></tr>
<tr><td colspan="4">Cyfeiriad: Heol-y-Gors</td></tr>
</table>

Cynllun o Leoliad y Safle



Disgrifiad

Eglwys fach sy'n dyddio o ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Mae'n adeilad o waith cerrig yn y dull gothig gyda chlochdy a phortsh amlwg, gyda manylion cerrig nadd a ffenestri gothig.



| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Diddordeb pensaernïol | X | Diddordeb hanesyddol | | Cysylltiad hanesyddol/ diwylliannol | X | Gwerth o ran cymeriad y grŵp/ yr anheddiad | X | Adeiladau lleol sy'n hen neu'n brin | |


Cyfiawnhad dros Ystyried:

Eglwys fach draddodiadol wedi'i gosod mewn mynwent y tu ôl i wal derfyn syml. Mae'n gyfraniad hynod a chadarnhaol i gymeriad yr anheddiad

Nodiadau: Coflein – wedi'i nodi ond nid oes rhagor o wybodaeth

| Ward:<br><br>Gwaun Cae<br>Gurwen | Anheddiad:<br><br>Gwaun Cae<br>Gurwen | Enw’r Adeilad: Capel Hermon | |
|---|---|---|---|
| Cyf: GCG005 | Cam Dilysu I: | Cam Dilysu I: | Cyfeirnod Grid: E270353 N212711 |
| Cyfeiriad: Heol Brynaman | | | |

Cynllun o Leoliad y Safle



Disgrifiad

Capel bach, plaen ei gynllun sy'n dyddio o ddechrau'r 20fed ganrif. Mae'n adeilad o waith cerrig gyda brics tywyll, ffenestri bwaog a dwy fynedfa yn y talcen. Mae'n sefyll mewn mynwent helaeth gyda wal derfyn o waith cerrig a rheiliau blaen, colofnau a gatiau yn ei wahanu o'r rhostir agored o'i gwmpas.



Google

| Diddordeb pensaernïol | X | Diddordeb hanesyddol | | Cysylltiad hanesyddol/ diwylliannol | X | Gwerth o ran cymeriad y grŵp/ yr anheddiad | X | Adeiladau lleol sy'n hen neu'n brin | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|

Cyfiawnhad dros Ystyried:

Capel plaen, traddodiadol, syml ei gynllun ar safle agored a thrawiadol sydd wedi'i gau i mewn o'r rhostir agored mewn llecyn amlwg ar gyrion yr anheddiad.

Nodiadau: Coflein: Adeiladwyd Hermon Capel yr Annibynwyr yn 1905.

| Ward: Gwaun Cae Gurwen | Anheddiad: Gwaun Cae Gurwen | Enw'r Adeilad: Traphontydd Rheilffordd | |
|---|---|---|---|
| Cyf: GCG006 | Cam Dilysu I: | Cam II: | Cyfeirnod Grid: E270055 N212070 |
| Cyfeiriad: Ger Heol Cae Gurwen/ Maes y Cwar | | | |

Cynllun o Leoliad y Safle



Disgrifiad: Pâr o draphontydd rheilffordd bwaog o waith cerrig a brics ar bwys ei gilydd. Defnyddir y draphont ogleddol ar gyfer y llinell reilffordd i Rydaman, ond ni chwblhawyd y llinell ddeheuol byth.





| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Diddordeb pensaernïol | X | Diddordeb hanesyddol | X | Cysylltiad hanesyddol/ diwylliannol | X | Gwerth o ran cymeriad y grŵp/ yr anheddiad | | Adeiladau lleol sy'n hen neu'n brin | |

Cyfiawnhad dros Ystyried: Adeileddau rheilffordd sylweddol sy'n bwysig i hanes diwydiannol yr ardal. Mae rhan ohonynt yn Sir Gaerfyrddin (mae'r ffin ar hyd yr afon)

Nodiadau: Coflein: Mae traphontydd rheilffordd Gwaun Cae Gurwen yn dyddio o'r blynyddoedd yn union cyn y Rhyfel Byd Cyntaf. Roeddent yn rhan o raglen adeiladu bwysig gan Reilffordd y Great Western yn ardal y maes glo caled i wella mynediad at y dociau yn Abertawe. Yn dilyn hynny, bu'r draphont ogleddol (SN 70060 12085) yn gwasanaethu golchfa gwaith glo brig, ond ataliwyd gwaith adeiladu'r draphont ddeheuol (SN 70062 12056) ar ddechrau'r rhyfel ac ni osodwyd y trac arni byth.

## Brynaman Isaf

| | | | |
|---|---|---|---|
| Ward: Brynaman Isaf | Anheddiad: Brynaman Isaf | Enw'r Adeilad: Capel Siloam | |
| Cyf: LBA001 | Cam Dilysu I: | Cam II: | Cyfeirnod Grid: E270893 N213576 |
| Cyfeiriad: Heol Aman | | | |

Cynllun o Leoliad y Safle



Disgrifiad: Capel amlwg, wedi'i baentio'n wyn, gyda nodweddion addurniadol cynnil o waith cerrig. Mae'r adeilad, sy'n dyddio o 1898, mewn mynwent â waliau cerrig o'i chwmpas, gyda rheiliau a gatiau (Gweler disgrifiad Coflein, isod)



Google

| Diddordeb pensaernïol | X | Diddordeb hanesyddol | | Cysylltiad hanesyddol/ diwylliannol | X | Gwerth o ran cymeriad y grŵp/ yr anheddiad | X | Adeiladau lleol sy'n hen neu'n brin | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|


Cyfiawnhad dros Ystyried:

Capel wedi'i gynnal a'i gadw'n dda ac yn ei gyflwr gwreiddiol i raddau helaeth, sy'n dal i gael ei ddefnyddio. Mae ganddo werth o ran y grŵp gyda Chapel Ebenezer (LBA002) ar ochr arall y Banwen.

Nodiadau: Coflein: Adeiladwyd Siloam Capel y Bedyddwyr yn 1871 i ddechrau a'i addasu wedyn yn 1898. Mae'r capel presennol yn adeilad cerrig gyda mynedfa yn y talcen ac mae'n cynnwys cymysgedd o nodweddion Romanésg a Chlasurol. Ynghanol y ffasâd blaen, mae drws sengl â ffenestr linter fawr â gwydr ar ffurf Y. Uwchben y drws, mae tair ffenestr hir, pen crwn gyda gwydr ar ffurf Y. Bob ochr iddynt, mae dwy ffenestr debyg o ran eu cynllun yn ymestyn bron o'r llawr i'r to. O dan grib y talcen, mae agoriad crwn wedi'i addurno â phedairdalen. Mae Ysgol Sul gysylltiedig ar yr ochr chwith.

<table>
<tr><td>Ward:<br><br>Brynaman Isaf</td><td>Settlement:<br><br>Lower Brynamman</td><td colspan="2">Building Name:<br><br>Ebenezer Chapel</td></tr>
<tr><td>Cyf: LBA002</td><td>Cam Dilysu I:</td><td>Cam II:</td><td>Cyfeirnod Grid: E270902 N 213573</td></tr>
<tr><td colspan="4">Cyfeiriad: Heol Aman</td></tr>
</table>

Cynllun o Leoliad y Safle



Disgrifiad

Capel mawr o waith cerrig gyda dau brif ddrws mynediad, ffenestri pen crwn a bwa wedi'i fewnosod, a ffenestr gron uwchben y fynedfa. Wedi'i osod ar dir â waliau cerrig, rheiliau a gatiau o'i gwmpas. Mae'r neuadd gyfagos o waith cerrig tebyg yn dyddio o 1882.



Google

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Diddordeb pensaernïol | X | Diddordeb hanesyddol | | Cysylltiad hanesyddol/ diwylliannol | X | Gwerth o ran cymeriad y grŵp/ yr anheddiad | X | Adeiladau lleol sy'n hen neu'n brin | |

Cyfiawnhad dros Ystyried:

Adeilad amlwg, mewn cyflwr da sy'n dirnod. Mae ganddo werth o ran y grŵp gyda Chapel Siloam (LBA001) ar ochr arall y Banwen.

Nodiadau: Coflein: Adeiladwyd Ebenezer Capel yr Annibynwyr yn gyntaf yn 1882 a'i ailadeiladu yn 1898. Adeiladwyd y capel presennol yn 1898, yn y dull Clasurol gyda mynedfa yn y talcen.

| Ward: Brynaman Isaf | Anheddiad: Brynaman Isaf | Enw’r Adeilad: Brynamman Hotel | |
|---|---|---|---|
| Cyf: LBA003 | Cam Dilysu I: | Cam II: | Cyfeirnod Grid: E271048 N213648 |
| Cyfeiriad: 27 Heol Aman | | | |

Cynllun o Leoliad y Safle



Disgrifiad

Hen dafarn/westy sefydledig. Adeilad carreg â thri thalcen gyda manylion brics, portsh blaen â cholofnau haearn a garej i'r ochr gyda grisiau cerrig allanol.



Google

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Diddordeb pensaernïol | X | Diddordeb hanesyddol | | Cysylltiad hanesyddol/ diwylliannol | X | Gwerth o ran cymeriad y grŵp/ yr anheddiad | X | Adeiladau lleol sy'n hen neu'n brin | |

Cyfiawnhad dros Ystyried:

Hen dafarn sefydledig. Mae'n adeilad amlwg, trawiadol sy'n ganolog i'r gymuned

Nodiadau


| Ward: Brynaman Isaf | Anheddiad: Brynaman Isaf | Enw'r Adeilad: Tafarn y Crown | |
|---|---|---|---|
| Cyf: LBA004 | Cam Dilysu I: | Cam II: | Cyfeirnod Grid: E270794 N213507 |
| Cyfeiriad: 25 Stryd y Parc | | | |

Cynllun o Leoliad y Safle



Disgrifiad

Tafarn/gwesty mawr, amlwg gyda nodweddion trawiadol, gan gynnwys tair ffenestr fargodol yn y to, ffenestr fae ar yr ail lawr, portsh haearn addurniadol ac arwydd tebyg. Rhai ffenestri gwreiddiol.



Google

| Diddordeb pensaernïol | X | Diddordeb hanesyddol | | Cysylltiad hanesyddol/ diwylliannol | X | Gwerth o ran cymeriad y grŵp/ yr anheddiad | X | Adeiladau lleol sy'n hen neu'n brin | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|

Cyfiawnhad dros Ystyried:

Tafarn bwysig mewn lleoliad canolog y mae golwg diddorol a hynod arni. Newidiwyd defnydd rhan o'r adeilad bellach yn siop cludfwyd twym, gan gadw'r rhan fwyaf o'r nodweddion. Mae ganddo werth o ran y grŵp gydag adeilad cyfagos 27 Stryd y Parc (LBA005).

Nodiadau

| Ward:<br><br>Brynaman Isaf | Anheddiad:<br><br>Brynaman Isaf | Enw’r Adeilad: Neaudd Parc | |
|---|---|---|---|
| Cyf: LBA005 | Cam Dilysu I: | Cam II: | Cyfeirnod Grid: E270778 N213500 |
| Cyfeiriad: 27 Stryd y Parc | | | |

Cynllun o Leoliad y Safle



Disgrifiad

Siop ac annedd sengl sydd wedi cadw'r ffenestri gwreiddiol, gan gynnwys y ffenestr fae ar y llawr cyntaf, y ffenestr ddormer a blaen y siop, gan gynnwys y gwydr lliw.



Google

| Diddordeb pensaernïol | X | Diddordeb hanesyddol | | Cysylltiad hanesyddol/ diwylliannol | X | Gwerth o ran cymeriad y grŵp/ yr anheddiad | X | Adeiladau lleol sy'n hen neu'n brin | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|

Cyfiawnhad dros Ystyried:

Blaen siop a ffenestri gwreiddiol a hynod. Mae ganddo werth o ran y grŵp gyda Thafarn y Crown LBA004 sydd yn ymyl (mae'r nodweddion, gan gynnwys y ffenestr ddormer a'r ffenestr fae yn adleisio golwg Tafarn y Crown)

Nodiadau

| Ward: Brynaman Isaf | Anheddiad: Tai'r Gwaith | Enw'r Adeilad: Eglwys Dewi Sant | |
|---|---|---|---|
| Cyf: LBA007 | Cam Dilysu I: | Cam II: | Cyfeirnod Grid: E271909 N212004 |
| Cyfeiriad: King Edward Road | | | |

Cynllun o Leoliad y Safle



Disgrifiad

Eglwys fechan, anarferol â chladin gwyn ar y waliau a tho llechi, gan gynnwys clochdy bychan a phortsh mynediad.



Google

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Diddordeb pensaernïol | X | Diddordeb hanesyddol | | Cysylltiad hanesyddol/ diwylliannol | X | Gwerth o ran cymeriad y grŵp/ yr anheddiad | X | Adeiladau lleol sy'n hen neu'n brin | |


Cyfiawnhad dros Ystyried: Adeilad eglwys anarferol sy'n dyddio'n wreiddiol o ddechrau'r ganrif ddiwethaf (cyn 1921) ac sydd â rôl bwysig yn y gymuned leol.

Nodiadau:

## Y Creunant

| Ward:<br><br>Y Creunant | Anheddiad: Y Creunant | Enw'r Adeilad: Capel Salem | |
|---|---|---|---|
| Cyf: CRY001 | Cam Dilysu I: | Cam II: | Cyfeirnod Grid: E279540 N204801 |
| Cyfeiriad: Brynawel | | | |

Cynllun o Leoliad y Safle



Disgrifiad - Adeilad capel mawr ynghyd â'r neuadd gyfagos (Gweler disgrifiad Coflein isod)




| Diddordeb pensaernïol | X | Diddordeb hanesyddol | | Cysylltiad hanesyddol/ diwylliannol | X | Gwerth o ran cymeriad y grŵp/ yr anheddiad | X | Adeiladau Lleol sy'n hen neu'n brin | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|

Cyfiawnhad dros Ystyried: Adeilad capel helaeth sydd heb newid i raddau helaeth ac adeiladau cysylltiedig, sy'n cynnwys yr ysgoldy neu'r neuadd gyfagos a'r cyfan ar safle â wal o'i gwmpas. Mae dyddiad 1937 ar flaen yr adeilad.

Nodiadau: Coflein: Adeiladwyd Salem, Capel y Methodistiaid, yn 1773, a'i ailadeiladu yn 1867 ac eto yn 1937. Adeiladwyd y capel hwyrach yn y dull Celf a Chrefft gyda chyfuniad o agoriadau drysau a ffenestri bwa, pen crwn, wedi'u rhannu'n segmentau, ffenestri plwm, stepiau carreg amlwg o waith cerrig pigedig a mynedfa yn y talcen.

<table>
<tr><td>Ward:<br><br>Y Creunant</td><td>Anheddiad: Y Creunant</td><td colspan="2">Enw’r Adeilad: Eglwys Sant Margaret</td></tr>
<tr><td>Cyf: CRY002</td><td>Cam Dilysu I:</td><td>Cam II:</td><td>Cyfeirnod Grid: E279415 N204803</td></tr>
<tr><td colspan="4">Cyfeiriad: Y Brif Ffordd</td></tr>
</table>

Cynllun o Leoliad y Safle



Disgrifiad

Eglwys wedi'i gosod mewn tiroedd helaeth. Adeilad o waith cerrig garw gyda manylion cerrig golau, yn cynnwys y ffenestri a'r clochdy. (Gweler disgrifiad Coflein isod)



| Diddordeb pensaernïol | X | Diddordeb hanesyddol | | Cysylltiad hanesyddol/ diwylliannol | X | Gwerth o ran cymeriad y grŵp/ yr anheddiad | X | Adeiladau Lleol sy'n hen neu'n brin | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|


Cyfiawnhad dros Ystyried:

Eglwys ddeniadol ar diroedd wedi'u cynnal a'u cadw'n dda. Mae ganddi ddyluniad a manylion cywrain. Mae iddi werth o ran y grŵp gyda'r Capel Anwes rhestredig sydd gerllaw.

Nodiadau: Coflein: Lleolir Eglwys St Margaret ar ochr ddwyreiniol yr A4109, wedi'i gosod yn ôl o'r ffordd mewn mynwent laswelltog. Codwyd yr eglwys yn 1909-10 yn yr arddull Seisnig Cynnar ar sail dyluniadau J. Cook Rees, pensaer, o Gastell-nedd. Mae'n cynnwys corff yr eglwys, a changell is a chloch yn y talcen. Hefyd, mae'n cynnwys gwydr lliw yn yr holl ffenestri gogleddol, deheuol a dwyreiniol, sy'n portreadu golygfeydd o fywyd Crist, gan Celtic Studios, 1951-66, cyfanwaith prin iawn gan gwmni cynhyrchiol. Mae capel anwes canoloesol gerllaw, i'r de o'r eglwys (NPRN 13421).

| | | | |
|---|---|---|---|
| Ward:<br><br>Y Creunant | Anheddiad: Y Creunant | Enw’r Adeilad: Pont Heol Maes Mawr | |
| Cyf: CRY004 | Cam Dilysu I: | Cam II: | Cyfeirnod Grid: E278960 N204764 |
| Cyfeiriad: Heol Maes Mawr | | | |

Cynllun o Leoliad y Safle



Disgrifiad - Pont Heol Maes Mawr dros afon Dulais. Pont un bwa o waith cerrig.



Google




| Diddordeb pensaernïol | | Diddordeb hanesyddol | X | Cysylltiad hanesyddol/ diwylliannol | X | Gwerth o ran cymeriad y grŵp/ yr anheddiad | X | Adeiladau Lleol sy'n hen neu'n brin | X |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|

Cyfiawnhad dros Ystyried: Pont un bwa o waith cerrig dros afon Dulais, sydd i'w gweld ar rifyn cyntaf y map Arolwg Ordnans ar yr hen ffordd i lawr y cwm trwy Gil-ffriw.

Nodiadau

| Ward:<br><br>Y Creunant | Anheddiad: Y Creunant | Enw'r Adeilad: Canolfan Gymunedol y Creunant | |
|---|---|---|---|
| Cyf: CRY006 | Cam Dilysu I: | Cam II: | Cyfeirnod Grid: E279339 N204956 |
| Cyfeiriad: Woodland Road | | | |

Cynllun o Leoliad y Safle



Disgrifiad: Adeilad ysgol bach traddodiadol mewn iard chwarae. Adeilad unllawr o waith cerrig a llechi gyda cherrig nadd goleuach o amgylch y ffenestri. Mae tri thalcen amlwg yn edrych dros Woodland Road. Mae waliau a rheiliau gwreiddiol yr iard yno o hyd.



Google

| Diddordeb pensaernïol | X | Diddordeb hanesyddol | | Cysylltiad hanesyddol/ diwylliannol | X | Gwerth o ran cymeriad y grŵp/ yr anheddiad | X | Adeiladau Lleol sy'n hen neu'n brin | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|

Cyfiawnhad dros Ystyried:

Ysgol bentref, mewn cyflwr lled-wreiddiol, a adeiladwyd ar ddechrau'r 20fed ganrif (cyn 1918), gyda'r rheiliau a'r waliau cyfatebol gwreiddiol. Mae'r adeilad yn ganolfan gymunedol bellach.

Nodiadau:

<table>
<tr><td>Ward:<br><br>Y Creunant</td><td>Anheddiad: Y Creunant</td><td colspan="2">Enw’r Adeilad: Capel Bethel</td></tr>
<tr><td>Cyf: CRY007</td><td>Cam Dilysu I:</td><td>Cam II:</td><td>Cyfeirnod Grid:<br><br>E279491 N205137</td></tr>
<tr><td colspan="4">Cyfeiriad: Heol yr Ysgol</td></tr>
</table>

Cynllun o Leoliad y Safle



Disgrifiad: Capel bach o waith brics a rendr, ar lain hirsgwar, laswelltog. (Gweler disgrifiad Coflein isod).



| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Diddordeb pensaernïol | X | Diddordeb hanesyddol | | Cysylltiad hanesyddol/ diwylliannol | X | Gwerth o ran cymeriad y grŵp/ yr anheddiad | X | Adeiladau Lleol sy'n hen neu'n brin | |

Cyfiawnhad dros Ystyried: Capel anarferol ei gynllun gyda nodweddion pensaernïol nodedig (gweler isod)

Nodiadau: Coflein: Adeiladwyd Bethel, Capel y Methodistiaid, yn 1921 a'i ailadeiladu yn 1933 yn y dull Pen Crwn Syml gyda gwydr lliw yn y dull Art Nouveau yn ffenestri'r ffasâd blaen. Mae maen dyddiad ar ben talcen y ffasâd yn nodi'r dyddiadau 1921 ac 1933 yn syml. Gorchuddiwyd y waliau allanol â rendr ac eithrio'r manylion o gwmpas ffenestri'r ffasâd a'r pilastrau brics ar y gweddau ochr.

## Onllwyn

<table>
<tr><td>Ward:<br><br>Onllwyn</td><td>Anheddiad:<br><br>Dyffryn Cellwen</td><td colspan="2">Enw’r Adeilad: Eglwys Dewi Sant</td></tr>
<tr><td>Cyf: ONL002</td><td>Cam Dilysu I:</td><td>Cam II:</td><td>Cyfeirnod Grid: E285462 N209922</td></tr>
<tr><td colspan="4">Cyfeiriad: Y Brif Heol</td></tr>
</table>

Cynllun o Leoliad y Safle



Disgrifiad:

Adeilad eglwys o haearn rhychiog gyda phortsh a chanopi cloch. (Gweler disgrifiad Coflein isod.)



Google

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Diddordeb pensaernïol | | Diddordeb hanesyddol | X | Cysylltiad Hanesyddol/ Diwylliannol | X | Gwerth o ran Cymeriad y Grŵp/ yr Anheddiad | | Adeiladau Lleol sy'n Hen neu'n Brin | X |

Cyfiawnhad dros ystyried:

Eglwys 'capel sinc' nodweddiadol sy'n dal i gael ei defnyddio, ac yn ddolen gyswllt â datblygiad cynnar y gymuned.

Nodiadau: Coflein: Mae eglwys Dewi Sant ar ochr dde-orllewinol Y Brif Ffordd, wrth ymyl y ffordd, rhwng Dyffryn Cellwen a'r Banwen. Strwythur haearn rhychiog siâp petryal ydyw, gyda tho anghymesur ar oleddf, portsh yn y talcen gogledd-orllewinol, ac estyniad un codiad yn y talcen de-ddwyreiniol.

Codwyd yr eglwys yn 1925 yn Eglwys gangen, a'i chysegru i Ddewi Sant. Bob blwyddyn, ar ddydd Gŵyl Dewi, mae'r eglwys yn cynnal Gŵyl y Cennin Pedr.

<table>
<tr><td>Ward:<br><br>Onllwyn</td><td>Anheddiad:<br><br>Dyffryn Cellwen</td><td colspan="2">Enw’r Adeilad: Capel Noddfa</td></tr>
<tr><td>Cyf: ONL003</td><td>Cam Dilysu I:</td><td>Cam II:</td><td>Cyfeirnod Grid: E285168 N210084</td></tr>
<tr><td colspan="4">Cyfeiriad: Y Brif Heol</td></tr>
</table>

Cynllun o Leoliad y Safle



Disgrifiad. Capel cynnar bach plaen, syml ei ddyluniad. Rendr paent gwyn gyda tho llechi a ffenestri pengrwn.



Google

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Diddordeb pensaernïol | X | Diddordeb hanesyddol | X | Cysylltiad Hanesyddol/ Diwylliannol | X | Gwerth o ran Cymeriad y Grŵp/ yr Anheddiad | X | Adeiladau Lleol sy'n Hen neu'n Brin | |

Cyfiawnhad dros Ystyried:

Adeilad capel cynnar syml sydd wedi goroesi, gyda rôl bwysig sy'n creu dolen â datblygiad cynnar yr anheddiad.

Nodiadau: Coflein: Adeiladwyd Noddfa, Capel y Methodistiaid yn gynnar yn y 19eg ganrif, yn y dull Pengrwn Syml gyda mynedfa yn y talcen. Yn 2002 nid oedd y capel hwn yn cael ei ddefnyddio.

## Blaendulais

| | | | |
|---|---|---|---|
| Ward:<br><br>Blaendulais | Anheddiad:<br><br>Blaendulais | Enw’r Adeilad: Brick Row | |
| Cyf: SEV004 | Cam Dilysu I | Cam II: | Cyfeirnod Grid: E281938 N208970 |
| Cyfeiriad: 1 – 6 Stryd Fawr | | | |

Cynllun o Leoliad y Safle



Disgrifiad

Rhes o fythynnod glowyr unllawr wedi'u moderneiddio a'u helaethu. Yn wreiddiol, roedd ganddynt i gyd gynllun dwy ystafell syml, a ffenestr bob ochr i'r drws ffrynt canolog.



| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Diddordeb pensaernïol | | Diddordeb hanesyddol | X | Cysylltiad hanesyddol/ diwylliannol | X | Gwerth o ran cymeriad y grŵp / yr anheddiad | X | Adeiladau lleol sy'n hen neu'n brin | X |

Cyfiawnhad dros Ystyried: Rhes hynod o fythynnod a godwyd cyn 1878. Maent yn rhai o'r anheddau cynharaf yn y pentref. Yn gysylltiedig â Glofa Seven Sisters sydd gerllaw.

Nodiadau: Mae anheddau tebyg yn y Cymer wedi'u rhestru. Dyma ddyfyniad o restriad Gelli Houses, y Cymer - "…enghraifft brin o fythynnod glowyr unllawr sydd wedi goroesi. Mae'r rhain yn dilyn cynllun hynod a ddefnyddiwyd yn y bythynnod glowyr cynnar ar ochr orllewinol maes glo de Cymru."

| | | | |
|---|---|---|---|
| Ward:<br><br>Blaendulais | Anheddiad:<br><br>Blaendulais | Enw'r Adeilad: Eglwys y Santes Fair | |
| Cyf: SEV007 | Cam Dilysu I | Cam II: | Cyfeirnod Grid: E281811 N209019 |
| Cyfeiriad: Heol yr Eglwys | | | |

Cynllun o Leoliad y Safle



Disgrifiad: Eglwys fawr gywrain ei dyluniad gyda dwy gloch mewn clochdy bychan a phortsh mawr. Y neuadd bren/haearn rhychiog yn y cefn yw adeilad gwreiddiol yr eglwys genhadol cyn 1898. (Gweler disgrifiad Coflein isod)



| Diddordeb pensaernïol | X | Diddordeb hanesyddol | | Cysylltiad hanesyddol/ diwylliannol | X | Gwerth o ran cymeriad y grŵp / yr anheddiad | X | Adeiladau lleol sy'n hen neu'n brin | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|

Cyfiawnhad dros Ystyried:

Eglwys fawr, gywrain ei dyluniad ar safle amlwg ynghanol yr anheddiad, sy'n cael effaith sylweddol ar gymeriad yr anheddiad.

Nodiadau: Coflein: Lleolir eglwys y Santes Fair ar ochr ogledd-orllewinol Heol yr Eglwys, ger ei chyffordd â Rhes Bryndulais. Codwyd yr adeilad yn 1910-11 yn y dull Seisnig Cynnar gyda rhywfaint o gerfwaith perpendicwlar, gan ddilyn dyluniad y pensaer o Gastell-nedd, J.Cook Rees. Fe'i hadeiladwyd ar safle ar bwys eglwys haearn a oedd hefyd wedi'i chysegru i'r Santes Fair, ar gyrion yr anheddiad cyfoes. (NPRN 420970).

Mae'r eglwys wedi'i hadeiladu o dywodfaen garw gyda cherrig mwy llyfn o dan doeon llechi. Mae'r echelin hir yn gorwedd o'r gogledd-ddwyrain i'r de-orllewin ac mae'r eglwys yn cynnwys corff â llofftydd golau gyda changell is, clochdy dwbl, a phortsh bargodol ar yr ochr dde-ddwyreiniol. Mae'r gwydr lliw yn cynnwys gweithiau gan Clayton & Bell (1921) a Celtic Studios (1959-81).

| Ward: | Anheddiad: | Enw'r Adeilad: Tafarn Bryndulais |
|---|---|---|
| Blaendulais | Blaendulais | |

| Cyf: SEV008 | Cam Dilysu I | Cam II: | Cyfeirnod Grid: E281698 N208838 |
|---|---|---|---|
| Cyfeiriad: Heol yr Eglwys | | | |

Cynllun o Leoliad y Safle



Disgrifiad

Tafarn fawr o waith brics coch a cherrig lliw hufen o amgylch y ffenestri, rendr gwyn ar waliau'r llawr cyntaf gyda ffenestr fargodol hynod ar ffurf hanner cylch ar y llawr cyntaf.



Google

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Diddordeb pensaernïol | X | Diddordeb hanesyddol | | Cysylltiad hanesyddol/ diwylliannol | X | Gwerth o ran cymeriad y grŵp / yr anheddiad | X | Adeiladau lleol sy'n hen neu'n brin | |


Cyfiawnhad dros Ystyried:

Tafarn drawiadol, amlwg (o ddechrau'r 20fed ganrif) ger canol y pentref.

Nodiadau

| Ward:<br><br>Blaendulais | Anheddiad:<br><br>Blaendulais | Enw’r Adeilad: Pont droed, Olwynion Weindio a Wagen Lo | |
|---|---|---|---|
| Cyf: SEV009 | Cam Dilysu I | Cam II: | Cyfeirnod Grid: E282021 N209015 |
| Cyfeiriad: Ardal Hamdden, Heol yr Eglwys | | | |

Cynllun o Leoliad y Safle



Disgrifiad: Pont droed haearn sy'n croesi'r rheilffordd. Olwynion weindio a wagen lo sengl a oedd yn gysylltiedig â glofa Seven Sisters a'r orsaf reilffordd gynt, a oedd ar dir cyfagos.





Google

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Diddordeb pensaernïol | | Diddordeb hanesyddol | X | Cysylltiad hanesyddol/ diwylliannol | X | Gwerth o ran cymeriad y grŵp / yr anheddiad | X | Adeiladau lleol sy'n hen neu'n brin | X |

Cyfiawnhad dros Ystyried: Arteffactau hynod sy'n gysylltiedig â hanes diwydiannol yr ardal ac â hanes Glofa Seven Sisters yn benodol, sef y rheswm gwreiddiol dros sefydlu'r anheddiad.

Nodiadau

## Aberdulais

| | | | |
|---|---|---|---|
| Ward: Aberdulais | Anheddiad: Aberdulais | Enw’r Adeilad: Tafarn Dulais Rock | |
| Cyf: ABD001 | Cam Dilysu I | Cam II | Cyfeirnod Grid: E277166 N199374 |
| Address: Cyfeiriad: Y Brif Ffordd | | | |

Cynllun o Leoliad y Safle



Disgrifiad

Tafarn wrth ymyl y ffordd sydd â thri llawr a nifer o ychwanegiadau ac estyniadau, gan gynnwys estyniad talcen yn y blaen, portsh gyda gât, a balconïau crog. Mae dyddiad 1658 ar y portsh.



| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Diddordeb pensaernïol | X | Diddordeb hanesyddol | X | Cysylltiad hanesyddol/diwylliannol | X | Gwerth o ran cymeriad y grŵp/yr anheddiad | X | Adeiladau lleol sy'n hen neu'n brin | |

Cyfiawnhad dros ystyried:


Hen dafarn ar safle amlwg ar yr hen brif ffordd ger safle Rhaeadr Aberdulais yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Tu mewn diddorol/hynod.

Nodiadau: Coflein: Wedi'i nodi ond nid oes rhagor o wybodaeth.

Wedi'i gofnodi â'r un enw ar fap Arolwg Ordnans 1877-1881

| | | | |
|---|---|---|---|
| Ward: Aberdulais | Anheddiad: Aberdulais | Enw'r Adeilad: Capel y Wesleaid | |
| Cyf: ABD002 | Cam Dilysu I | Cam II | Cyfeirnod Grid: E277224 N199215 |
| Cyfeiriad: Wrth ochr y gamlas | | | |

Cynllun o Leoliad y Safle



Disgrifiad:

Adeilad traddodiadol a fu gynt yn gapel gyda ffenestri cul yn y dull gothig, waliau cerrig amrywiol a brics coch addurniadol yn amgylchynu'r ffenestri a'r drws. Mae dyddiad ar y wal flaen (1901)



| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Diddordeb pensaernïol | X | Diddordeb hanesyddol | | Cysylltiad hanesyddol/ diwylliannol | X | Gwerth o ran cymeriad y grŵp/yr anheddiad | X | Adeiladau lleol sy'n hen neu'n brin | |

Cyfiawnhad dros ystyried:

Capel gynt (bellach wedi'i addasu) ar safle amlwg sy'n ychwanegu cymeriad a diddordeb i'r ardal hanesyddol wrth ochr y gamlas.

Nodiadau: Coflein: Adeiladwyd Capel Methodistaidd Aberdulais yn 1902 yn y dull Gothig Syml, gyda brics yn amgylchynu'r ffenestri (sydd ar ffurf lansed) a mynedfa yn y talcen.

| Ward: Aberdulais | Anheddiad: Cil-ffriw | Enw'r Adeilad: Capel Pisgah/Capel yr Annibynwyr | |
|---|---|---|---|
| Cyf: ABD005 | Cam Dilysu I | Cam I | Cyfeirnod Grid: E277058 N200438 |
| Cyfeiriad: Y Brif Ffordd | | | |

Cynllun o Leoliad y Safle



Disgrifiad

Capel bach â gorffeniad carreg amlwg yn y dull Art Deco ar ei flaen gyda ffenestr ganol â phen crwn, pedimentau carreg a nodweddion addurniadol sy'n cynnwys arysgrifau (a'r dyddiad 1930), a phortsh mynediad llydan o dan do gwastad.



| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Diddordeb pensaernïol | X | Diddordeb hanesyddol | | Cysylltiad hanesyddol/ diwylliannol | X | Gwerth o ran cymeriad y grŵp/yr anheddiad | X | Adeiladau lleol sy'n hen neu'n brin | |

Cyfiawnhad dros ystyried:

Capel bach syml gyda ffasâd o ansawdd uchel. Mae ganddo rôl bwysig o ran y gymuned a chymeriad yr anheddiad.

Nodiadau: Coflein: Wedi'i nodi ond nid oes rhagor o wybodaeth

| Ward: Aberdulais | Anheddiad: Cil-ffriw | Enw'r Adeilad: Capel Hermon | |
|---|---|---|---|
| Cyf: ABD006 | Cam Dilysu I | Cam II | Cyfeirnod Grid: E277107 N200296 |
| Cyfeiriad: Y Brif Ffordd | | | |

Cynllun o Leoliad y Safle



| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Disgrifiad<br><br>Capel bach â thu blaen syml a deniadol o waith cerrig a ffenestri â phennau crwn. Portsh mynediad amlwg. Mae'r dyddiad 1881 ar garreg ar flaen y capel.<br><br> | | | | | | | |
| Diddordeb pensaernïol | X | Diddordeb hanesyddol | | Cysylltiad hanesyddol/diwylliannol | X | Gwerth o ran cymeriad y grŵp/yr anheddiad | X | Adeiladau lleol sy'n hen neu'n brin | |
| Cyfiawnhad dros ystyried:<br><br>Capel syml ond llawn cymeriad, sy'n dyddio o flynyddoedd cynnar datblygiad Cil-ffriw | | | | | | | |
| Nodiadau: Coflein: Adeiladwyd Hermon, Capel y Methodistiaid yn 1881 yn y dull Is-glasurol gyda mynedfa yn y talcen. | | | | | | | |

| Ward: Aberdulais | Anheddiad: Cil-ffriw | Enw'r Adeilad: Ysgol Sul | |
|---|---|---|---|
| Cyf: ABD008 | Cam Dilysu I | Cam II | Cyfeirnod Grid: E277126 N200501 |
| Cyfeiriad: Y Brif Ffordd | | | |

Site Location Plan



Disgrifiad

Capel/ysgoldy wedi'i orchuddio â haearn rhychog wedi'i baentio'n goch, gyda ffenestri 'eglwysig' yn y dull Gothig a phortsh mynediad bychan.



Google

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Diddordeb pensaernïol | | Diddordeb hanesyddol | X | Cysylltiad hanesyddol/ diwylliannol | X | Gwerth o ran cymeriad y grŵp/yr anheddiad | | Adeiladau lleol sy'n hen neu'n brin | X |

Cyfiawnhad dros ystyried:

'Capel sinc' gwreiddiol o fath sydd wedi mynd yn brin. Capel Pisgah gynt (cyn bod Capel presennol Pisgah (ABD005) yn cael ei adeiladu ochr arall y ffordd, mae'n debyg). Bu ganddo rôl gymunedol bwysig yn natblygiad a hanes cynnar y pentref.

Nodiadau: Coflein: Adeiladwyd Capel yr Annibynwyr, Pisgah yn 1866 ac erbyn 1947 roedd wedi cael ei addasu i'w ddefnyddio fel ysgol.

## Dwyrain Llansawel

| Ward: Dwyrain Llansawel | Anheddiad Llansawel | Enw'r Adeilad | |
Cyfiawnhad dros Ystyried:

Adeilad diddorol a gwreiddiol yn ei gyflwr gwreiddiol, sy'n rhoi cymeriad i'r ardal leol.

Nodiadau:

<table>
<tr><td>Ward: Dwyrain Castell-nedd</td><td>Anheddiad:<br><br>Melincryddan</td><td colspan="2">Enw’r Adeilad: Capel Bethel Elim</td></tr>
<tr><td>Cyf: NTE015</td><td>Cam Dilysu I</td><td>Cam II</td><td>Cyfeirnod Grid: E275062 N196724</td></tr>
<tr><td colspan="4">Cyfeiriad: Heol Llansawel</td></tr>
</table>

Cynllun o Leoliad y Safle



Disgrifiad: Capel traddodiadol â waliau rendr lliw hufen, yn sefyll uwchlaw lefel y stryd, gyda nodweddion clasurol, gan gynnwys ffenestri a drws bwaog, pen crwn a philastrau clasurol. Mae'r estyniad cefn â gweddau sy'n edrych dros yr Hen Heol wedi'i godi mewn dull modernaidd trawiadol gyda thoeon serth a ffenestri cul â phwyslais fertigol.




Google

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Diddordeb pensaernïol | X | Diddordeb hanesyddol | | Cysylltiad hanesyddol/ diwylliannol | X | Gwerth o ran cymeriad y grŵp/ yr anheddiad | X | Adeiladau lleol sy'n hen neu'n brin | |


Cyfiawnhad dros Ystyried: Capel mawreddog mewn llecyn amlwg iawn ar lefel uwch yng nghanol rhes o dai teras/siopau ar y brif ffordd.

Nodiadau: Coflein: Adeiladwyd Bethel, Capel y Methodistiaid, yn 1865 yn y dull Is-glasurol gyda mynedfa yn y talcen.

## Gogledd Castell-nedd

| Ward: Gogledd Castell-nedd | Anheddiad: Castell-nedd | Anheddiad: Castell-nedd | |
|---|---|---|---|
| Cyf: NTN001 | Cam Dilysu I | Cam II | Cyfeirnod Grid: E275151 N197693 |
| Cyfeiriad: Heol Croft | | | |

Cynllun o Leoliad y Safle



Disgrifiad

Adeilad warws masnachol. Mae gan yr adeilad wedd flaen o waith brics, gyda phâr o ddrysau a phanel hysbysebu. Mae gweddill yr adeilad wedi'i wneud o gerrig gydag is-lawr bwaog/cromennog a drysau ochr, gan gynnwys drysau ar y llawr cyntaf, gyda gwindas a ffenestri bach. Mae'r dyddiad 1922 ar wedd flaen yr adeilad.





Google

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Diddordeb pensaernïol | x | Diddordeb hanesyddol | | Cysylltiad hanesyddol/ diwylliannol | | Gwerth o ran cymeriad y grŵp/yr anheddiad | x | Adeiladau lleol sy'n hen neu'n brin | x |

Cyfiawnhad dros Ystyried:

Adeilad masnachol llawn cymeriad sydd wedi goroesi yng nghanol y dref. Mae ganddo strwythur is-lawr bwaog, diddorol a gwaith brics cyferbyniol ar yr ochr flaen. Mae gwedd flaen yr adeilad yn debyg i Orsaf Dân Aberafan gynt (Cyf. AAF005).

Nodiadau:

| Ward:<br><br>Gogledd Castell-nedd | Anheddiad:<br><br>Castell-nedd | Enw'r Adeilad: Llety Nedd | |
|---|---|---|---|
| Cyf: NTN006 | Cam Dilysu I | Cam II | Cyfeirnod Grid: E275865 N197915 |
| Cyfeiriad: Pen-y-Dre | | | |

Cynllun o Leoliad y Safle



Disgrifiad: Tloty Undeb gynt sydd wedi’i droi bellach yn safle masnachol a phreswyl. Adeilad cerrig â’i gynllun a’i ddyluniad cymesur gwreiddiol wedi’i osod o amgylch iard ganolog sydd wedi’i haddasu a’i chuddio i raddau gan newidiadau mwy diweddar. Dyddiedig 1838.




Google

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Diddordeb pensaernïol | X | Diddordeb hanesyddol | X | Cysylltiad hanesyddol/ diwylliannol | X | Gwerth o ran cymeriad y grŵp/yr anheddiad | X | Adeiladau lleol sy’n hen neu’n brin | X |


Cyfiawnhad dros Ystyried:

Adeiladau sy’n tynnu sylw mewn llecyn amlwg, wedi’u gwneud o waith cerrig solet, ansawdd uchel. Mae ganddynt gysylltiadau hanesyddol pwysig gan eu bod yn Dloty Undeb gynt.

Nodiadau: Coflein: Agorwyd yn 1838, cynllun sgwâr sy’n cynnwys adeiniau hir yn y blaen a’r cefn wedi’u cysylltu gan adain ganol fyrrach.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Ward:<br><br>Gogledd<br>Castell-nedd | Anheddiad:<br><br>Castell-nedd | Enw’r Adeilad: Tafarn The Greyhound | |
| Cyf: NTN008 | Cam Dilysu I | Cam II | Cyfeirnod Grid: E275422<br>N197588 |
| Cyfeiriad: Stryd y Dŵr | | | |

Cynllun o Leoliad y Safle



Disgrifiad

Hen dafarn sefydledig mewn man canolog yng nghanol y dref. Gyda rendr gwyn a fframiau du, a tho llechi, mae'n cyferbynnu â'r datblygiad modern o'i hamgylch.



| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Diddordeb pensaernïol | | Diddordeb hanesyddol | | Cysylltiad hanesyddol/ diwylliannol | X | Gwerth o ran cymeriad y grŵp/ yr anheddiad | X | Adeiladau lleol sy'n hen neu'n brin | X |

Cyfiawnhad dros Ystyried:

Tafarn draddodiadol yng nghanol y dref â phensaernïaeth fodern o'i hamgylch. Mae'n gyfraniad cadarnhaol i'r treflun ac i'r amgylchedd lleol. Mae'n adeilad sydd wedi goroesi ac yn atgof o'r treflun blaenorol.

Nodiadau:

| Ward: Gogledd Castell-nedd | Anheddiad: Llanilltud | Enw'r Adeilad: Capel Mynwent Llanilltud Fach | |
|---|---|---|---|
| Cyf: NTN010 | Cam Dilysu I | Cam II | Cyfeirnod Grid: E276398 N197379 |
| Cyfeiriad: Heol Fairyland | | | |

Cynllun o Leoliad y Safle



Disgrifiad

Capel a chorffdy bychan yn y dull gothig o fewn y fynwent. Mae'n adeilad cerrig o dan do llechi gyda cherrig llwydfelyn, mewn bandiau, ar y conglfeini ac o amgylch y ffenestri a'r drws. Mae ganddo bortsh mynediad mawr. Mae agoriadau'r ffenestri wedi'u cau bellach. Dyddiad yr adeilad yw diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg.



Google

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Diddordeb pensaernïol | X | Diddordeb hanesyddol | | Cysylltiad hanesyddol/ diwylliannol | X | Gwerth o ran cymeriad y grŵp/yr anheddiad | X | Adeiladau lleol sy'n hen neu'n brin | |

Cyfiawnhad dros Ystyried:

Addoldy mewn lleoliad pwysig, â chynllun eglwysig traddodiadol.

Nodiadau: Coflein: Wedi'i gynnwys ond nid oes rhagor o wybodaeth.

| Ward: Gogledd Castell-nedd | Anheddiad: Castell-nedd | Enw’r Adeilad: Capel Zoar | |
|---|---|---|---|
| Cyf: NTN011 | Cam Dilysu I | Cam II | Cyfeirnod Grid: E275102 N197658 |
| Cyfeiriad: Zoar’s Ark, Stryd y Bont | | | |

Cynllun o Leoliad y Safle



Disgrifiad

Hen gapel a ddefnyddir bellach yn stordy ar gyfer canolfan arddio. Adeilad o waith cerrig gyda ffenestri mawr pen crwn gwreiddiol ac arysgrif carreg ar ei wedd flaen, a tho llechi talcennog. Drysau mynediad mawr, modern.




| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Diddordeb pensaernïol | X | Diddordeb hanesyddol | X | Cysylltiad hanesyddol/ diwylliannol | X | Gwerth o ran cymeriad y grŵp/yr anheddiad | X | Adeiladau lleol sy’n hen neu’n brin | |

Cyfiawnhad dros Ystyried: Capel cynnar ar ffurf sgwâr (wedi’i godi cyn prif linell y rheilffordd gerllaw a’r danffordd bwrpasol). Adeilad anarferol sydd wedi goroesi, ynghanol ardal o adeiladau masnachol.

Nodiadau: Coflein: Adeiladwyd Zoar, Capel yr Annibynwyr yn 1828 yn y dull pen crwn syml gyda mynedfa yn y wal hir. Yn 1980, addaswyd y capel at ddefnydd masnachol ond erbyn 1998, roedd Zoar wedi’i ddymchwel (anghywir).

| Ward:<br><br>Gogledd Castell-nedd | Anheddiad:<br><br>Castell-nedd | Enw'r Adeilad: Capel (yn gysylltiedig â'r Mission Hall drws nesaf) | |
|---|---|---|---|
| Cyf: NTN014 | Cam Dilysu I | Cam II | Cyfeirnod Grid: E275391 N197729 |
| Cyfeiriad: Y Stryd Fawr | | | |

Cynllun o Leoliad y Safle



Disgrifiad: Capel plaen â dau ddrws mynediad, waliau wedi'u rendro ar wedd flaen yr adeilad, ffenestri pen crwn a tho llechi.




Google

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Diddordeb pensaernïol | X | Diddordeb hanesyddol | | Cysylltiad hanesyddol/ diwylliannol | X | Gwerth o ran cymeriad y grŵp/yr anheddiad | X | Adeiladau lleol sy'n hen neu'n brin | |

Cyfiawnhad dros Ystyried: Adeilad capel traddodiadol yn ardal hanesyddol canol tref Castell-nedd. Mae ganddo werth o ran y grŵp gyda'r Mission Hall NTN015 yn Ardal Gadwraeth Canol Tref Castell-nedd.

Nodiadau: Coflein: Capel wedi'i adeiladu yn y dull Syml, pen crwn gyda mynedfa yn y talcen. Wedi'i leoli drws nesaf i'r Mission Hall a adeiladwyd yn 1903.

<table>
<tr><td>Ward:<br><br>Gogledd<br>Castell-nedd</td><td>Anheddiad:<br><br>Castell-nedd</td><td colspan="2">Enw’r Adeilad: Eglwys Bresbyteraidd Mission Hall Castell-nedd</td></tr>
<tr><td>Cyf: NTN015</td><td>Cam Dilysu I</td><td>Cam II</td><td>Cyfeirnod Grid: E275407<br>N197734</td></tr>
<tr><td colspan="4">Cyfeiriad: Y Stryd Fawr</td></tr>
</table>

Cynllun o Leoliad y Safle



Disgrifiad: Mae'r Mission Hall yn adeilad trawiadol o waith brics coch yn y dull celf a chrefft a godwyd yn 1903. Mae cerrig gwyn mewn bandiau ac o amgylch y ffenestri ac mae agoriadau'r drysau ar ffurf bwâu isel.



Google

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Diddordeb pensaernïol | X | Diddordeb hanesyddol | | Cysylltiad hanesyddol/ diwylliannol | X | Gwerth o ran cymeriad y grŵp/yr anheddiad | X | Adeiladau lleol sy'n hen neu'n brin | |

Cyfiawnhad dros Ystyried: Adeilad o ansawdd uchel yn y dull celf a chrefft o ddechrau'r ugeinfed ganrif, mewn cyflwr gwreiddiol da (gan gynnwys y ffenestri). Mae ganddo werth o ran y grŵp gyda'r capel NTN014 yn Ardal Gadwraeth Canol Tref Castell-nedd.

Nodiadau: Coflein: Adeiladwyd y Mission Hall yng Nghastell-nedd o waith brics yn 1884 yn y dull cynhenid gyda mynedfa yn y wal fer.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Ward:<br><br>Gogledd Castell-nedd | Anheddiad:<br><br>Castell-nedd | Enw'r Adeilad: Capel Bedyddwyr Orchard Place | |
| Cyf: NTN017 | Cam Dilysu I | Cam II | Cyfeirnod Grid: E275339 N197467 |
| Cyfeiriad: Stryd y Berllan | | | |

Cynllun o Leoliad y Safle



Disgrifiad: Adeilad eglwys mawreddog a chywrain ar safle amlwg yng nghanol y dref. Mae'n adeilad cerrig gyda fframiau brics llwydfelyn ar y conglfeini, pileri, bandiau a'r bwâu uwchben y ffenestri. Ar wedd flaen yr adeilad, mae fframiau cerrig y ffenestri a'r drws wedi'u paentio'n wyn gyda phileri clasurol wedi'u cerfio'n gywrain ac arysgrifau. Mae balwstradau ar lefel y to ac mae gatiau, pileri, grisiau a rheiliau mawreddog ger y fynedfa flaen.




Google

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Diddordeb pensaernïol | X | Diddordeb hanesyddol | | Cysylltiad hanesyddol/ diwylliannol | X | Gwerth o ran cymeriad y grŵp/yr anheddiad | X | Adeiladau lleol sy'n hen neu'n brin | |

Cyfiawnhad dros Ystyried: Adeilad eglwys pwysig, trawiadol ac amlwg mewn man canolog yn Ardal Gadwraeth Canol Tref Castell-nedd.

Nodiadau: Coflein: Adeiladwyd Capel Bedyddwyr Orchard Place yn 1842, a chafodd ei addasu'n sylweddol yn 1872 a'i ehangu yn 1903. Adeiladwyd capel 1872 yn y dull Romanésg gyda mynedfa yn y talcen a ffenestri pen crwn.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Ward:<br><br>Gogledd Castell-nedd | Anheddiad:<br><br>Castell-nedd | Enw'r Adeilad: Gwesty'r Castell | |
| Cyf: NTN018 | Cam Dilysu I | Cam II | Cyfeirnod Grid: E275238 N197632 |
| Cyfeiriad: Y Parêd | | | |

Cynllun o Leoliad y Safle



Disgrifiad: Hen dafarn sefydledig ar gyfer coetsis gynt sy'n cynnwys cymysgedd o arddulliau adeiladu sy'n amrywio o ran eu hoed a'u huchder (hyd at dri llawr). Mae'n dyddio'n wreiddiol o'r ail ganrif ar bymtheg neu'n gynharach ac wedi'i lleoli mewn man amlwg yng nghanol y dref.



Google

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Diddordeb pensaernïol | X | Diddordeb hanesyddol | X | Cysylltiad hanesyddol/ diwylliannol | X | Gwerth o ran cymeriad y grŵp/yr anheddiad | X | Adeiladau lleol sy'n hen neu'n brin | X |

Cyfiawnhad dros Ystyried: Adeilad llawn cymeriad sy'n cynnwys cymysgedd o arddulliau adeiladu o wahanol gyfnodau, a chanddo rôl bwysig yn hanes y dref. Mae'r cysylltiadau hanesyddol/diwylliannol yn cynnwys ymweliadau honedig gan yr Arglwydd Nelson a'r Fonesig Hamilton a chymeriadau hanesyddol eraill, a man sefydlu Undeb Rygbi Cymru. Yn Ardal Gadwraeth Canol Tref Castell-nedd.

Nodiadau:

| Ward:<br><br>Gogledd Castell-nedd | Anheddiad:<br><br>Castell-nedd | Enw'r Adeilad: Tafarn Neath Arms (yr Angel gynt) | |
|---|---|---|---|
| Cyf: NTN019 | Cam Dilysu I | Cam II | Cyfeirnod Grid: E275242 N197700 |
| Cyfeiriad: Stryd yr Angel | | | |

Cynllun o Leoliad y Safle



Disgrifiad: Tafarn amlwg mewn lleoliad canolog. Mae'n adeilad brics coch â cherrig wedi'u paentio'n llwyd o amgylch y ffenestri, portsh mynediad bargodol ac addurniadau ar y to sy'n cynnwys yr enw a'r dyddiad. To llechi.



Google

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Diddordeb pensaernïol | X | Diddordeb hanesyddol | | Cysylltiad hanesyddol/ diwylliannol | X | Gwerth o ran cymeriad y grŵp/yr anheddiad | X | Adeiladau lleol sy'n hen neu'n brin | |

Cyfiawnhad dros Ystyried: Tafarn draddodiadol yng nghanol y dref sydd â llawer o'i nodweddion gwreiddiol, gan gynnwys rhai ffenestri. Dyddiedig 1905. Mae ganddo werth o ran y grŵp gyda hen neuadd y dref, sy'n adeilad rhestredig, a Gwesty'r Castell (NTN018). Yn Ardal Gadwraeth Canol Tref Castell-nedd.

Nodiadau:

<table>
<tr><td>Ward:<br><br>Gogledd<br>Castell-nedd</td><td>Anheddiad:<br><br>Castell-nedd</td><td colspan="2">Enw’r Adeilad: 1 Stryd y Berllan ac 1 Stryd y Gwynt</td></tr>
<tr><td>Cyf: NTN020</td><td>Cam Dilysu I:</td><td>Cam II</td><td>Cyfeirnod Grid: E275317<br>N197603</td></tr>
<tr><td colspan="4">Cyfeiriad: 1 Stryd y Berllan ac 1 Stryd y Gwynt</td></tr>
</table>

Cynllun o Leoliad y Safle



Disgrifiad: Adeilad ag addurniadau cywrain a manwl ar safle cornel mewn man canolog ar y Sgwâr. Mae gwaith brics coch ar y lloriau uchaf gyda nodweddion cerrig llwydfelyn, gan gynnwys bandiau, pilastrau, amgylchyniadau ac addurniadau'r ffenestri. Mae ffenestri cornel trawiadol a chwpola ar y to gyda cheiliog gwynt. Mae ganddo do llechi sy'n cynnwys talcenni ag estyll tywydd wedi'u haddurno a chylchigau cerrig cerfiedig. Mae blaenau siopau modern ar y llawr gwaelod.




Google


| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Diddordeb pensaernïol | X | Diddordeb hanesyddol | | Cysylltiad hanesyddol/ diwylliannol | X | Gwerth o ran cymeriad y grŵp/yr anheddiad | X | Adeiladau lleol sy'n hen neu'n brin | |

Cyfiawnhad dros Ystyried: Adeilad deniadol, sy'n tynnu sylw yng nghanol yr ardal siopa. Mae'n cynnwys manylion cywrain a llawer o'i nodweddion gwreiddiol.

Nodiadau:

| Ward: Gogledd Castell-nedd | Anheddiad: Castell-nedd | Enw’r Adeilad: Tafarn David Protheroe | |
|---|---|---|---|
| Cyf: NTN021 | Cam Dilysu I | Cam II | Cyfeirnod Grid: E275160 N197440 |
| Cyfeiriad: 7 Heol Windsor | | | |

Cynllun o Leoliad y Safle



Disgrifiad: Adeilad Gorsaf Heddlu Sirol sy’n dyddio o ddechrau neu ganol yr ugeinfed ganrif. Mae dylanwad y mudiad art deco i’w weld ar flaen yr adeilad gyda’i gynllun cymesur a’i brif fynedfa fawr, ganolog. Mae gwaith brics ar flaen yr adeilad gyda cherrig wedi’u paentio o amgylch y ffenestri a’r drws, y fynedfa ganolog drawiadol a’r cornis. Mae bellach yn dafarn Wetherspoons.



Google

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Diddordeb pensaernïol | X | Diddordeb hanesyddol | | Cysylltiad hanesyddol/ diwylliannol | X | Gwerth o ran cymeriad y grŵp/yr anheddiad | X | Adeiladau lleol sy’n hen neu’n brin | |

Cyfiawnhad dros Ystyried: Tafarn boblogaidd â phensaernïaeth sy’n cyferbynnu â’r adeiladau cyfagos ond hefyd yn eu hategu, mewn safle amlwg gyferbyn â’r orsaf reilffordd. Yn Ardal Gadwraeth Canol Tref Castell-nedd. Mae ganddo werth o ran y grŵp gyda’r banciau cyfagos sy’n adeiladau rhestredig a thafarn Big Cam (NTN022).

Nodiadau:

| Ward:<br><br>Gogledd Castell-nedd | Anheddiad:<br><br>Castell-nedd | Enw'r Adeilad: Tafarn Big Cam | |
|---|---|---|---|
| Cyf: NTN022 | Cam Dilysu I | Cam II | Cyfeirnod Grid: E275161 N197424 |
| Cyfeiriad: 9 Heol Windsor | | | |

Cynllun o Leoliad y Safle



Disgrifiad: Tafarn fawr a mawreddog ar gornel. Mae’n adeilad brics coch gyda llawer o waith cerrig gwyn, gan gynnwys y ffenestri, y pedimentau, amgylchyniadau’r drysau mynediad, y ffenestri dormer a’r talcenni. Mae rhan o’r adeilad yn cynnwys pedwar llawr ac yn bargodi dros y brif fynedfa.




Google

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Diddordeb pensaernïol | X | Diddordeb hanesyddol | | Cysylltiad hanesyddol/ diwylliannol | X | Gwerth o ran cymeriad y grŵp/yr anheddiad | X | Adeiladau lleol sy’n hen neu’n brin | |

Cyfiawnhad dros Ystyried: Hen dafarn sefydledig sydd ag arddull bensaernïol sy’n tynnu sylw mewn lleoliad amlwg gyferbyn â’r orsaf reilffordd. Yn Ardal Gadwraeth Canol Tref Castell-nedd. Mae ganddi werth o ran y grŵp gyda thafarn David Protheroe (NTN021) sydd gerllaw a’r banciau rhestredig.

Nodiadau:

| Ward: Gogledd Castell-nedd | Anheddiad: Castell-nedd | Enw'r Adeilad: Prudential Chambers | |
|---|---|---|---|
| Cyf: NTN023 | Cam Dilysu I | Cam II | Cyfeirnod Grid: E275214 N197625 |
| Cyfeiriad: 11 Y Parêd | | | |

Cynllun o Leoliad y Safle



Disgrifiad: Swyddfeydd ariannol o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg sydd wedi'u haddasu bellach yn siop cludfwyd a bar ar y llawr gwaelod. Mae'n adeilad tri llawr gyda mynedfa ganolog gywrain â philastrau a phediment. Mae cerrig wyneb garw ar flaen yr adeilad gyda nodweddion cerrig goleuach o amgylch y ffenestri, mewn bandiau ac ar y conglfeini.



Google

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Diddordeb pensaernïol | X | Diddordeb hanesyddol | | Cysylltiad hanesyddol/ diwylliannol | X | Gwerth o ran cymeriad y grŵp/yr anheddiad | X | Adeiladau lleol sy'n hen neu'n brin | |

Cyfiawnhad dros Ystyried: Adeilad swyddfa yn ei gyflwr gwreiddiol i raddau helaeth. Yn Ardal Gadwraeth Canol Tref Castell-nedd. Mae ganddo werth o ran y grŵp gyda Gwesty'r Castell gerllaw (NTN021) a'r banc rhestredig.


Nodiadau:

| Ward:<br><br>Gogledd Castell-nedd | Anheddiad:<br><br>Castell-nedd | Enw’r Adeilad: Ysgol Alderman Davies |
|---|---|---|

| Cyf: NTN024 | Cam Dilysu I | Cam II | Cyfeirnod Grid: E275461 N197469 |
|---|---|---|---|

Cyfeiriad: Stryd Dewi Sant

Cynllun o Leoliad y Safle



| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Disgrifiad: Ysgol gynradd nodweddiadol o'r 19eg ganrif. Mae'n adeilad unllawr yn bennaf o waith cerrig gyda thoeon llechi, ac yn cyfateb o ran ei ddeunyddiau i Eglwys Dewi Sant gerllaw, ac yn ei hategu. Mae cerrig nadd goleuach o amgylch y ffenestri ac ar frig y talcen canolog, sy'n cynnwys ffigurau cywrain a manwl.<br><br>Google | | | | | | | | | |
| Diddordeb pensaernïol | X | Diddordeb hanesyddol | X | Cysylltiad hanesyddol/ diwylliannol | X | Gwerth o ran cymeriad y grŵp/yr anheddiad | X | Adeiladau lleol sy'n hen neu'n brin | |
| Cyfiawnhad dros Ystyried: Ysgol yr Eglwys yng Nghymru sydd yn ei chyflwr gwreiddiol i raddau helaeth gyda'r rhan fwyaf o'i nodweddion gwreiddiol. Yn Ardal Gadwraeth Canol Tref Castell-nedd. Mae ganddi werth o ran y grŵp gydag Eglwys Dewi Sant gerllaw, sy'n adeilad rhestredig. | | | | | | | | | |
| Nodiadau: | | | | | | | | | |

<table>
<tr><td>Ward:<br><br>Gogledd<br>Castell-nedd</td><td>Anheddiad:<br><br>Castell-nedd</td><td colspan="2">Enw’r Adeilad: Swyddfeydd T. Llewellyn Jones</td></tr>
<tr><td>Cyf: NTN025</td><td>Cam Dilysu I</td><td>Cam II</td><td>Cyfeirnod Grid: E275289 N197890</td></tr>
<tr><td colspan="4">Cyfeiriad: 1 – 3 Maes yr Eglwys</td></tr>
</table>

Cynllun o Leoliad y Safle



Disgrifiad: Swyddfeydd tri llawr o'r 19eg ganrif gyda blaen siop ac amgylchyniadau drysau yn y dull traddodiadol modern. Rendr wedi'i baentio a cherrig wedi'u paentio ar y conglfeini ac o amgylch y ffenestri.




| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Diddordeb pensaernïol | X | Diddordeb hanesyddol | | Cysylltiad hanesyddol/ diwylliannol | X | Gwerth o ran cymeriad y grŵp/yr anheddiad | X | Adeiladau lleol sy'n hen neu'n brin | |

Cyfiawnhad dros Ystyried: Adeilad swyddfa sydd yn ei gyflwr gwreiddiol i raddau helaeth. Yn Ardal Gadwraeth Canol Tref Castell-nedd. Mae ganddo werth o ran y grŵp gydag adeiladau rhestredig Hen Neuadd y Dref a Sefydliad y Mecanyddion, ac Eglwys St Thomas a'i mynwent.

Nodiadau:

## De Castell-nedd

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Ward:<br><br>De Castell-nedd | Anheddiad:<br><br>Cimla | Enw’r Adeilad: Eglwys Sant Pedr a Sant Paul | | |
| Cyf: NTS001 | Cam Dilysu I | | Cam II | Cyfeirnod Grid: E276173 N196302 |
| Cyfeiriad: Heol Cimla | | | | |

Cynllun o Leoliad y Safle

**Picture .1**



Disgrifiad : Adeilad eglwys modern â chynllun wythochrog a thoeon serth o deils brown. Plinth o waith cerrig gyda phaneli siâp triongl gwydrog neu wedi'u rendro. Mae ffenestr ar ffurf croes wydr arddulliedig yn y panel sy'n wynebu'r ffordd. Mae'r neuadd unllawr gysylltiedig yn adleisio'r dyluniad gyda ffrâm A yn ffurfio'r portsh/clochdy.



| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Diddordeb pensaernïol | X | Diddordeb hanesyddol | | Cysylltiad hanesyddol/ diwylliannol | X | Gwerth o ran cymeriad y grŵp/ yr anheddiad | X | Adeiladau lleol sy'n hen neu'n brin | |

Cyfiawnhad dros Ystyried: Adeilad modern hynod mewn lleoliad amlwg sy'n cael effaith sylweddol ar gymeriad yr ardal gyfagos.

Nodiadau:

| | | | |
|---|---|---|---|
| Ward:<br><br>De Castell-nedd | Anheddiad:<br><br>Castell-nedd | Enw'r Adeilad: The Laurels | |
| Cyf: NTS003 | Cam Dilysu I | Cam II | Cyfeirnod Grid: E275569 N196694 |
| Cyfeiriad: Lewis Road | | | |

Cynllun o Leoliad y Safle



Disgrifiad: Annedd fawr sengl o Oes Victoria ar safle helaeth. Mae'n adeilad o waith cerrig wyneb garw gyda cherrig llwydfelyn o amgylch y ffenestri a'r drws ac ar y conglfeini. Mae ganddo bortsh blaen mawreddog gyda phileri ac addurniadau cywrain. Mae rheiliau trawiadol ar hyd terfyn blaen y safle.



Google

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Diddordeb pensaernïol | X | Diddordeb hanesyddol | X | Cysylltiad hanesyddol/ diwylliannol | X | Gwerth o ran cymeriad y grŵp/ yr anheddiad | X | Adeiladau lleol sy'n hen neu'n brin | |

Cyfiawnhad dros Ystyried: Annedd urddasol ar dir helaeth a choediog gyda rheiliau blaen trawiadol. Mae ganddo hanes arwyddocaol fel sefydliad (gweler isod).

NNodiadau: Wedi'i roi ar werth gan y Cyngor, Chwefror 2016. Roedd erthygl yn yr Evening Post ar 16/2/16 yn dweud bod The Laurels ar werth ac yn gofyn tybed a allai'r ysbyty gynt o gyfnod y Rhyfel Byd Cyntaf ddod yn un o'r cartrefi mwyaf moethus yng Nghastell-nedd Port Talbot. Esboniwyd bod y Groes Goch wedi'i ddefnyddio fel ysbyty 40 gwely yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf.

http://www.southwales-eveningpost.co.uk/Plush-pad-plans-40-bed-ex-hospital/story-28739244-detail/story.html#ixzz40WlepbDW

<table>
<tr><td>Ward:<br><br>De Castell-nedd</td><td>Anheddiad:<br><br>Cimla</td><td colspan="2">Enw’r Adeilad: Eglwys Gatholig St Joseph</td></tr>
<tr><td>Cyf: NTS005</td><td>Cam Dilysu I</td><td>Cam II</td><td>Cyfeirnod Grid: E275565 N196541</td></tr>
<tr><td colspan="4">Cyfeiriad: Cook Rees Avenue</td></tr>
</table>

Cynllun o Leoliad y Safle



Disgrifiad: Eglwys a godwyd ynghanol yr ugeinfed ganrif, o waith brics brown a cherrig wedi'u paentio'n wyn ar fwâu a siliau'r ffenestri a'r drws. Mae ffenestr fawr gron yn y pen gogleddol uwch ben y portsh mynediad, gyda cherflun mewn cilfach uwch ei phen a chroes ar y grib. Rhai ffenestri gwydr lliw. Mae'r eglwys ar safle dymunol wedi'i dirweddu ac mae tŷ'r offeiriad gerllaw yn ei hategu o ran arddull.



Google

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Diddordeb pensaernïol | X | Diddordeb hanesyddol | | Cysylltiad hanesyddol/ diwylliannol | X | Gwerth o ran cymeriad y grŵp/ yr anheddiad | X | Adeiladau lleol sy'n hen neu'n brin | |

Cyfiawnhad dros Ystyried: Nodwedd hynod ac arwyddocaol yn yr ardal breswyl helaeth hon, sy'n bwysig i'r gymuned leol.

Nodiadau: Coflein: Adeiladwyd eglwys Gatholig St Joseph, Castell-nedd yn 1934 yn y dull Gothig, gyda lle i 700 eistedd.

## Tonna

| Ward: Tonna | Anheddiad: Tonna | Enw'r Adeilad: Ysbyty Tonna | |
|---|---|---|---|
| Cyf: TON001 | Cam Dilysu I | Cam II | Cyfeirnod Grid: E278092 N199337 |
| Cyfeiriad: Tonna Uchaf | | | |

Cynllun o Leoliad y Safle



Disgrifiad: Prif adeilad gwreiddiol yr ysbyty. Adeilad tri llawr yn y dull Sioraidd cynnil gyda chynllun cymesur a phrif fynedfa ganolog â phortico.



| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Diddordeb pensaernïol | X | Diddordeb hanesyddol | | Cysylltiad hanesyddol/ diwylliannol | X | Gwerth o ran cymeriad y grŵp/ yr anheddiad | X | Adeiladau lleol sy'n hen neu'n brin | |

Cyfiawnhad dros Ystyried: Adeilad ysbyty traddodiadol clasurol a chymesur sydd â rôl bwysig yn y gymuned leol.

Nodiadau:

## Blaengwrach

| Ward: Blaengwrach | Anheddiad: Cwmgwrach | Enw'r Adeilad: Capel Calfaria | |
|---|---|---|---|
| Cyf: BLA001 | Cam Dilysu I: | Cam II: | Cyfeirnod Grid: E286798 N205277 |
| Cyfeiriad: Y Stryd Fawr | | | |

Cynllun o Leoliad y Safle



Disgrifiad

Capel unllawr, plaen ei ddyluniad o waith cerrig nadd, wedi'i aroleuo â brics, a tho llechi. Mae'r brif fynedfa ar ffurf porth canolog, pen crwn gyda ffenestri pennau crwm  bob ochr iddi. Mae dyddiad 1905 ar yr adeilad.




| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Diddordeb pensaernïol | X | Diddordeb hanesyddol | | Cysylltiad hanesyddol/diwylliannol | X | Gwerth o ran cymeriad y grŵp/yr anheddiad | X | Adeiladau lleol sy'n hen neu'n brin | |

Cyfiawnhad dros Ystyried: Capel syml ond deniadol mewn llecyn amlwg ar Stryd Fawr Cwmgwrach. Mae'r adeilad mewn cyflwr da yn ôl pob golwg.

Nodiadau: Coflein: Adeiladwyd Capel y Bedyddwyr, Calfaria yn 1905 yn y dull Syml, Pen Crwn gyda mynedfa yn y talcen.

| Ward: Blaengwrach | Anheddiad: Cwmgwrach | Enw'r Adeilad: Fferm y Wenallt | |
|---|---|---|---|
| Cyf: BLA002 | Cam Dilysu I: | Cam II: | Cyfeirnod Grid: E286237 N205029 |
| Cyfeiriad: Heol Wenallt | | | |

Cynllun o Leoliad y Safle



Disgrifiad

Tŷ cerrig â saernïaeth ansawdd uchel sy'n sefyll ar ei ben ei hun (yn debyg o ran ei olwg i adeilad Gwaith Haearn y Wenallt sydd y tu cefn iddo) gyda thoeon llechi. Mae tystiolaeth iddo gael ei newid yn sylweddol yn y gorffennol. Arferai sefyll yng nghwrtil y gwaith haearn.



Google

| Diddordeb pensaernïol | | Diddordeb hanesyddol | X | Cysylltiad hanesyddol/diwylliannol | X | Gwerth o ran cymeriad y grŵp/yr anheddiad | X | Adeiladau lleol sy'n hen neu'n brin | X |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|

Cyfiawnhad dros Ystyried: Adeilad dymunol o syml gyda manylion diddorol a thystiolaeth o newidiadau a defnyddiau blaenorol. Dywed bwrdd dehongli'r gwaith haearn i'r adeilad fod gynt yn swyddfa i'r cwmni a siop. Mae ganddo gysylltiad (gwerth o ran y grŵp) â'r olion diwydiannol cofrestredig gerllaw.

Nodiadau:

| | | | |
|---|---|---|---|
| Ward: Blaengwrach | Anheddiad: Cwmgwrach | Enw'r Adeilad: Capel Siloh gynt | |
| Cyf: BLA003 | Cam Dilysu I: | Cam II: | Cyfeirnod Grid: E286723 N205235 |
| Cyfeiriad: Heol Wenallt | | | |

Cynllun o Leoliad y Safle



Disgrifiad

Capel dirodres gyda waliau plaen wedi'u rendro, ffenestri pennau crwn mewn patrwm cymesur a phrif fynedfa ganolog, wedi'i osod yn ôl ychydig o'r ffordd.



Google

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Diddordeb pensaernïol | X | Diddordeb hanesyddol | X | Cysylltiad hanesyddol/diwylliannol | X | Gwerth o ran cymeriad y grŵp/yr anheddiad | X | Adeiladau lleol sy'n hen neu'n brin | |

Cyfiawnhad dros Ystyried: Capel syml a deniadol mewn cyflwr gwreiddiol da yn ôl pob golwg. Mae'n dyddio o'r datblygiad cyntaf yng Nghwmgwrach. Bellach, mae'r adeilad wedi'i addasu'n breswylfa.

Nodiadau: Un o'r adeiladau hynaf yng Nghwmgwrach, ar fap Arolwg Ordnans 1876

Coflein: Adeiladwyd Capel yr Annibynwyr, Siloh yn 1862 a'i addasu yn 1892. Adeiladwyd y capel yn 1862 yn y dull Pen Crwn Syml gyda mynedfa yn y talcen.

| Ward: | Anheddiad: | Enw'r Adeilad: | |
|---|---|---|---|
| Blaengwrach | Cwmgwrach | Eglwys y Santes Fair | |
| Cyf: BLA004 | Cam Dilysu I: | Cam II: | Cyfeirnod Grid: E287030 N205582 |
| Cyfeiriad: Cilgant yr Eglwys | | | |

Cynllun o Leoliad y Safle



Disgrifiad

Eglwys fach, blaen ei chynllun. Wedi'i hadeiladu o gerrig gyda thoeon llechi. Clochdwr bychan, portsh mynediad a ffenestri bychain yn y dull Gothig.



| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Diddordeb pensaernïol | X | Diddordeb hanesyddol | X | Cysylltiad hanesyddol/diwylliannol | X | Gwerth o ran cymeriad y grŵp/yr anheddiad | X | Adeiladau lleol sy'n hen neu'n brin | X |

Cyfiawnhad dros Ystyried:

Eglwys fach blaen a syml iawn wedi'i gosod mewn mynwent. Mae'n un o'r adeiladau hynaf ym Mlaengwrach/Cwmgwrach, o'r cyfnod cyn amser y prif anheddiad (ar fap Arolwg Ordnans 1876). Capel anwes gynt.

Nodiadau: Coflein – Wedi'i nodi ond nid oes rhagor o wybodaeth.

## Glyn-nedd

| | | | |
|---|---|---|---|
| Ward:<br><br>Glyn-nedd | Anheddiad:<br>Glyn-nedd | Enw’r Adeilad: Tafarn y Lamb and Flag | |
| Cyf: GLN002 | Cam Dilysu I: | Cam II: | Cyfeirnod Grid: E287403 N206232 |
| Cyfeiriad: Morfa Glas | | | |

Cynllun o Leoliad y Safle



Disgrifiad

Tafarn fawr a mawreddog ar ochr y ffordd. Mae ganddi ddyluniad cymesur o boptu prif fynedfa ganolog gyda phortsh a thalcen canolog. Adeilad rendr gwyn gyda'r ffenestri gwreiddiol a theils rhosmari ar y to.




Google

| Diddordeb pensaernïol | X | Diddordeb hanesyddol | | Cysylltiad hanesyddol/ diwylliannol | X | Gwerth o ran cymeriad y grŵp/ yr anheddiad | X | Adeiladau lleol sy'n hen neu'n brin | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|

Cyfiawnhad dros Ystyried:

Hen dafarn amlwg sefydledig, gyda chynllun cymesur nodweddiadol a'r ffenestri gwreiddiol. Ailadeiladwyd y dafarn (yn y 1930au?) i edrych dros lwybr y ffordd fawr newydd (edrychai dros yr hen ffordd fawr (Morfa Glas) o'r blaen).

Nodiadau

| | | |
|---|---|---|
| Ward:<br><br>Glyn-nedd | Anheddiad:<br>Glyn-nedd | Enw’r Adeilad: Addoldy Glyn-nedd |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cyf: GLN009 | Cam Dilysu I: | Cam II: | Cyfeirnod Grid: E287518 N206670 |
| Cyfeiriad: Heol yr Addoldy | | | |

Cynllun o Leoliad y Safle



Disgrifiad Capel mawr mewn mynwent helaeth. Mae ganddo dalcen blaen o waith cerrig a gwedd ochr amlwg wedi'i rendro, a tho llechi. Mae ffenestri mawr pen crwn ar y tu blaen ac ar yr ochr ac mae portsh ar yr ochr.



| Diddordeb pensaernïol | X | Diddordeb hanesyddol | | Cysylltiad hanesyddol/ diwylliannol | X | Gwerth o ran cymeriad y grŵp/ yr anheddiad | X | Adeiladau lleol sy'n hen neu'n brin | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|

Cyfiawnhad dros Ystyried:

Capel mawr ar safle agored ar gyrion yr anheddiad. Mae'r ffenestri mawr pen crwn a'r rendr wedi'i baentio ar y wedd ochr yn ychwanegu diddordeb.

Nodiadau: Coflein: Adeiladwyd Addoldy, Capel yr Annibynwyr yn 1839, a'i ailadeiladu yn 1874 ac eto yn 1894. Adeiladwyd capel 1894 yn y dull pen crwn syml gyda dau lawr a mynedfa yn y talcen. .

| Ward: Glyn-nedd | Anheddiad: Pontneddfechan | Enw'r Adeilad: Angel Inn | |
|---|---|---|---|
| Cyf: GLN011 | Cam Dilysu I: | Cam II: | Cyfeirnod Grid: E290063 N207632 |
| Cyfeiriad: Heol Pontneddfechan | | | |

Cynllun o Leoliad y Safle



Disgrifiad

Hen dafarn wledig sefydledig. Waliau wedi’u rendro a’u paentio gyda cherrig wedi’u paentio o amgylch y ffenestri a’r conglfeini, portsh blaen mawr a tho llechi.




| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Diddordeb pensaernïol | | Diddordeb hanesyddol | X | Cysylltiad hanesyddol/ diwylliannol | X | Gwerth o ran cymeriad y grŵp/ yr anheddiad | X | Adeiladau lleol sy’n hen neu’n brin | |

Cyfiawnhad dros Ystyried:

Tafarn adnabyddus a phoblogaidd sydd â rôl bwysig o ran twristiaeth. Hen dafarn sefydledig gyda chymeriad a diddordeb hanesyddol lleol.

Nodiadau

| Ward:<br><br>Glyn-nedd | Anheddiad:<br><br>Pentreclwydau | Enw’r Adeilad: Twlc mochyn Fferm Pentreclwydau | |
|---|---|---|---|
| Cyf: GLN012 | Cam Dilysu I: | Cam II: | Cyfeirnod Grid: E290063 N207632 |
| Cyfeiriad: Heol Glyn-nedd | | | |

Cynllun o Leoliad y Safle



Disgrifiad

Twlc mochyn crwn anarferol, corbelog ei saernïaeth, sydd o ddiddordeb hanesyddol (Gweler disgrifiad Coflein isod)



| Diddordeb pensaernïol | X | Diddordeb hanesyddol | X | Cysylltiad hanesyddol/ diwylliannol | X | Gwerth o ran cymeriad y grŵp/ yr anheddiad | X | Adeiladau lleol sy'n hen neu'n brin | X |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|

Cyfiawnhad dros Ystyried: Adeiladau fferm a thwlc mochyn corbelog o waith cerrig sydd wedi'u hadfer yn dda. Mae tylciau moch tebyg yn yr ardal wedi'u rhestru: "Wedi'i gynnwys fel enghraifft anarferol a phrin iawn o adeilad sy'n defnyddio dull adeiladu hynafol, sy'n prysur ddiflannu."

Nodiadau: Coflein: 1. Llwyncelyn - yn cynnwys twlc mochyn corbelog, sy'n dyddio o oddeutu 1800; 2.Mae'r twlc mochyn corbelog yn Llwyn Celyn, Pentre Clwydau wedi'i adeiladu gan ddefnyddio cerrig lleol, gwnaed rhywfaint o waith adnewyddu oddeutu 1980 ond mae'r lloc â wal o'i gwmpas wedi'i ddinistrio.

[Tylciau moch corbelog eraill:

• Geudy crwn ym Mlaen-yr-hebog, ar yr A465 (ar yr ochr ogledd-orllewinol), Rheola

• Twlc mochyn crwn ar Fferm Blaendulais, Blaendulais

• Twlc mochyn crwn ym Mhen-yr-esgym, Pontardawe

• Twlc mochyn Pensianel, Sgiwen]

| Ward: Glyn-nedd | Anheddiad: Rheola | Enw’r Adeilad: Rheola Lodge | |
|---|---|---|---|
| Cyf: GLN013 | Cam Dilysu I: | Cam II: | Cyfeirnod Grid: E284194 N204033 |
| Cyfeiriad: Heol Glyn-nedd | | | |

Cynllun o Leoliad y Safle



Disgrifiad

Porthdy Rheola House. Adeilad o waith cerrig gyda tho llechi a nodweddion addurniadol, gan gynnwys portsh, estyll tywydd a ffenestri dormer.



Google

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Diddordeb pensaernïol | X | Diddordeb hanesyddol | | Cysylltiad hanesyddol/ diwylliannol | X | Gwerth o ran cymeriad y grŵp/ yr anheddiad | X | Adeiladau lleol sy'n hen neu'n brin | |


Cyfiawnhad dros Ystyried:

Porthdy traddodiadol mewn safle amlwg ar y brif ffordd. Mae'n adeilad pwysig fel rhan o stad Rheola. Mae ganddo werth o ran y grŵp gydag adeiladau rhestredig stâd Rheola.

Nodiadau

| | | | |
|---|---|---|---|
| Ward:<br><br>Glyn-nedd | Anheddiad:<br>Glyn-nedd | Enw’r Adeilad: Capel y Glyn | |
| Cyf: GLN014 | Cam Dilysu I: | Cam II: | Cyfeirnod Grid: E288436 N206750 |
| Cyfeiriad: Heol y Glyn | | | |

Cynllun o Leoliad y Safle



Disgrifiad

Capel mawr gyda tho llechi a gwaith cerrig ar ei wedd flaen. Mae manylion brics lliw hufen o amgylch y ffenestri a’r drysau ac ar y conglfeini. Mae rendr ar y gweddau ochr. Mae ffenestri pen crwn ar wedd flaen yr adeilad. Mae’r adeilad wedi’i osod mewn mynwent helaeth.



| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Diddordeb pensaernïol | X | Diddordeb hanesyddol | | Cysylltiad hanesyddol/ diwylliannol | X | Gwerth o ran cymeriad y grŵp/ yr anheddiad | X | Adeiladau lleol sy’n hen neu’n brin | |

Cyfiawnhad dros Ystyried:

Capel mawr mewn safle amlwg ger y ffordd fawr yn agos at ganol y dref.

Nodiadau Wedi’i adeiladu yn y 1880au/1890au?

| | | | |
|---|---|---|---|
| Ward:<br><br>Glyn-nedd | Anheddiad:<br>Glyn-nedd | Enw'r Adeilad: Capel y Bedyddwyr, Bethel | |
| Cyf: GLN016 | Cam Dilysu I: | Cam II: | Cyfeirnod Grid: E288295 N206530 |
| Cyfeiriad: Y Stryd Fawr | | | |

Cynllun o Leoliad y Safle



Disgrifiad

Capel trawiadol, wedi'i osod yn ôl o'r Stryd Fawr, mewn mynwent â wal o'i chwmpas yng nghanol y dref. Mae'r wedd flaen o waith cerrig wedi'i rendro a'i phaentio gyda manylion o amgylch y ffenestri ac ar y conglfeini, ac arysgrif/dyddiad amlwg uwchben y fynedfa ganolog. Mae'r waliau, y rheiliau a'r gatiau blaen hefyd yn nodweddion hynod.



Google

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Diddordeb pensaernïol | X | Diddordeb hanesyddol | X | Cysylltiad hanesyddol/ diwylliannol | X | Gwerth o ran cymeriad y grŵp/ yr anheddiad | X | Adeiladau lleol sy'n hen neu'n brin | |

Cyfiawnhad dros Ystyried:


Adeilad capel amlwg a thrawiadol wedi'i leoli ar y Stryd Fawr yng nghanol y dref, sy'n cyfrannu'n sylweddol at gymeriad y dref.

Nodiadau: Wedi'i blotio (yn anghywir?) fel adeilad rhestredig gyda waliau a rheiliau rhestredig.

Coflein: Wedi'i adeiladu yn 1846, a'i addasu, ei altro neu ei ailadeiladu yn 1861 ac yn 1876. Statws presennol [2002]: anhysbys

| Ward:<br><br>Glyn-nedd | Anheddiad:<br>Pontneddfechan | Enw'r Adeilad: Pont Pontneddfechan | |
|---|---|---|---|
| Cyf: GLN017 | Cam Dilysu I: | Cam II: | Cyfeirnod Grid: E290100 N207670 |
| Cyfeiriad: Y Stryd Fawr | | | |

Cynllun o Leoliad y Safle



CCA: Atodlen Adeiladau o Bwysigrwdd Lleol (Ebrill 2019)

**Disgrifiad: Pont gerrig un bwa a lôn gerbyd sengl dros afon Nedd Fechan**





| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Diddordeb pensaernïol | | Diddordeb hanesyddol | X | Cysylltiad hanesyddol/ diwylliannol | X | Gwerth o ran cymeriad y grŵp/ yr anheddiad | X | Adeiladau lleol sy'n hen neu'n brin | X |

**Cyfiawnhad dros Ystyried:**

**Y bont lôn sengl wreiddiol dros afon Nedd Fechan, sy'n rhoi ei henw i'r anheddiad. Yn rhannol yn sir Powys.**

**Nodiadau: Coflein: Mae Pont Nedd Fechan yn bont un bwa o waith cerrig dros afon Nedd**

## Resolfen

| Ward: Resolfen | Anheddiad: Resolfen | Enw'r Adeilad: Eglwys Dewi Sant | |
|---|---|---|---|
| Cyf: RES002 | Cam Dilysu I | Cam II | Cyfeirnod Grid: E282551 N202291 |
| Cyfeiriad: Heol Castell-nedd | | | |

Cynllun o Leoliad y Safle



Disgrifiad: Eglwys fach draddodiadol gyda rendr gwyn a tho llechi mewn mynwent fechan (Gweler disgrifiad Coflein isod).



Google

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Diddordeb pensaernïol | X | Diddordeb hanesyddol | | Cysylltiad Hanesyddol/ Diwylliannol | X | Gwerth o ran cymeriad y Grŵp/yr Anheddiad | X | Adeiladau lleol sy'n hen neu'n brin | |

Cyfiawnhad dros Ystyried: Adeilad eglwys bach traddodiadol a dirodres gyda llawer o nodweddion gwreiddiol, mewn man amlwg ar ffin ddeheuol Resolfen.

Nodiadau: Coflein: Mae eglwys Dewi Sant ar ochr ogleddol Heol Castell-nedd (B4434) rhwng Resolfen a Melin-cwrt. Codwyd yr eglwys yn 1850 yn y dull Lansed. Codwyd yr eglwys o gerrig garw wedi'u rendro o dan doeon llechi, ac yn ogystal â'r corff mae'n cynnwys cangell gulach, festri yn y talcen de-ddwyreiniol, portsh yn y talcen gorllewinol, a thŵr/meindwr bychan. Un o'r nodweddion trawiadol y tu mewn yw'r cefnlen (reredos) sy'n dyddio o tua 1930. Mae'r gwydr lliw yn cynnwys gwaith gan Joseph Bell o Fryste (1869), ac yng nghorff yr eglwys mae naw lansed wedi cael eu llenwi â gwydr lliw ers 1950.

| Ward: | Anheddiad: | Enw'r Adeilad: | |
|---|---|---|---|
| Resolfen | Resolfen | Cofeb Ryfel Resolfen | |
| Cyf: RES004 | Cam Dilysu I | Cam II | Cyfeirnod Grid: E283089 N202641 |
| Cyfeiriad: Heol Castell-nedd | | | |

Cynllun o Leoliad y Safle



Disgrifiad: Cofeb garreg fechan ar ffurf obelisg yn ymyl neuadd y gymuned yng nghanol Resolfen.



Google

| Diddordeb pensaernïol | | Diddordeb hanesyddol | X | Cysylltiad hanesyddol/ diwylliannol | X | Gwerth o ran cymeriad y grŵp/yr anheddiad | X | Adeiladau lleol sy'n hen neu'n brin | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|

Cyfiawnhad dros Ystyried: Cofeb nodedig sydd â rôl ganolog yn hanes a bywyd y gymuned.

Nodiadau:

| Ward: Resolfen | Anheddiad: Resolfen | Enw'r Adeilad: Y Ganolfan/Canolfan Gymunedol Resolfen | |
|---|---|---|---|
| Cyf: RES005 | Cam Dilysu I | Cam II | Cyfeirnod Grid: E283213 N202568 |
| Cyfeiriad: Heol Tan y Rhiw | | | |

Cynllun o Leoliad y Safle



Disgrifiad: Adeilad a fu gynt yn gapel, mewn lleoliad amlwg, o waith cerrig gyda tho llechi. Ffenestri pengrwn ar y llawr uchaf uwchben y fynedfa yn y canol. Ymhlith y nodweddion cerrig mae band llorweddol, amgylchyniadau'r ffenestri a'r drysau, a'r conglfeini.




Google

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Diddordeb pensaernïol | X | Diddordeb hanesyddol | | Cysylltiad hanesyddol/ diwylliannol | X | Gwerth o ran cymeriad y grŵp/yr anheddiad | X | Adeiladau lleol sy'n hen neu'n brin | |

Cyfiawnhad dros Ystyried: Adeilad trawiadol, amlwg, sydd â rôl ganolog yn y gymuned leol.

Nodiadau: Coflein: Codwyd Tabernacle, Capel y Methodistiaid, yn 1868 a'i ailadeiladu yn 1904. Codwyd y capel diweddarach yn y dull Gothig, gyda mynedfa yn y talcen, dau lawr, a thyrau bob ochr. Erbyn 2000 roedd Tabernacle wedi cael ei addasu at ddefnydd arall.

| Ward: Resolfen | Anheddiad: Resolfen | Enw'r Adeilad: Sardis, Eglwys y Bedyddwyr, a Chapel y Bedyddwyr yn ymyl | |
|---|---|---|---|
| Cyf: RES006 | Cam Dilysu I | Cam II | Cyfeirnod Grid: E282798 N202921 |
| Cyfeiriad: Commercial Road | | | |

Cynllun o Leoliad y Safle



Disgrifiad: Eglwys y Bedyddwyr, adeilad trawiadol o waith cerrig gyda nodweddion brics coch ac adrannau ymwthiol anghyffredin yn y blaen, yn ogystal â chapel llai yn ymyl, â rendr gwyn arno.



Google

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Diddordeb pensaernïol | X | Diddordeb hanesyddol | | Cysylltiad hanesyddol/ diwylliannol | X | Gwerth o ran cymeriad y grŵp/yr anheddiad | X | Adeiladau lleol sy'n hen neu'n brin | |

Cyfiawnhad dros Ystyried: Eglwys amlwg a chapel yn ymyl yn edrych dros y sgwâr ganolog. Mae'r eglwys wedi'i hadeiladu o gerrig gyda chonglfeini brics coch a tho llechi, mae'r capel wedi'i rendro ac wedi cadw'r to llechi gwreiddiol. Mae dyddiad 1892 ar y capel. Adeiladau tirnod wrth gyrraedd Resolfen.

Nodiadau: Coflein: Adeiladwyd Sardis, Capel y Bedyddwyr, yn 1864, ac yna'i ailadeiladu yn 1904 gan gyfuno arddull Romanesg ac Art Deco, gyda mynedfa yn y talcen a ffenestri pengrwn.

<table>
<tr><td>Ward:<br><br>Resolfen</td><td>Anheddiad:<br><br>Resolfen</td><td colspan="3">Enw’r Adeilad:<br><br>Ton House a Swyddfa’r Post gynt</td></tr>
<tr><td>Cyf: RES007</td><td colspan="2">Cam Dilysu I</td><td>Cam II</td><td>Cyfeirnod Grid: E283047 N202634</td></tr>
<tr><td colspan="5">Cyfeiriad: 5, 7 a 9 Heol Castell-nedd</td></tr>
</table>

Cynllun o Leoliad y Safle



Disgrifiad: Hen dŷ trawiadol wedi'i beintio'n wyn ac adeilad a fu gynt yn Swyddfa'r Post gyda thalcennau amlwg, ffenestri pengrwn a thoeon llechi. Mae dyddiad 1806 ar y blaenlun.



Google

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Diddordeb pensaernïol | | Diddordeb hanesyddol | X | Cysylltiad hanesyddol/ diwylliannol | X | Gwerth o ran cymeriad y grŵp/yr anheddiad | X | Adeiladau lleol sy'n hen neu'n brin | |

Cyfiawnhad dros Ystyried: Adeilad pwysig yng nghanol Resolfen, un o'r adeiladau hynaf yn y pentref, gyda rôl ganolog yn hanes yr anheddiad. Mae'n cynnwys waliau blaen gyda blwch post.

Nodiadau: Coflein: Mae carreg ar Ton House a Swyddfa'r Post yn dwyn y dyddiad 1806, ond mae'n bosib iawn bod yr adeilad yn tarddu o ganol y 18fed ganrif. Credir bod y maen dyddio yn nodi addasiadau i brif ran yr adeilad.

| Ward: Resolfen | Anheddiad: Resolfen | Enw'r Adeilad: Tafarn y Farmers Arms | |
|---|---|---|---|
| Cyf: RES008 | Cam Dilysu I | Cam II | Cyfeirnod Grid: E282448 N203057 |
| Cyfeiriad: Heol Glyn-nedd | | | |

Cynllun o Leoliad y Safle



Disgrifiad: Hen dafarn sefydledig wrth ymyl y ffordd. Adeilad carreg gyda manylion brics a phren lliw hufen, rhai o'r ffenestri gwreiddiol, a thoeon llechi. Mae pâr o dalcenni ar y blaenlun, a hefyd feranda.




Google

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Diddordeb pensaernïol | X | Diddordeb hanesyddol | | Cysylltiad hanesyddol/ diwylliannol | X | Gwerth o ran cymeriad y grŵp/yr anheddiad | X | Adeiladau lleol sy'n hen neu'n brin | |

Cyfiawnhad dros Ystyried: Adeilad tirnod trawiadol sefydledig ar yr hen brif ffordd (ar fap OS 1899 o dan yr un enw).

Nodiadau:

## Yr Alltwen

| | | | |
|---|---|---|---|
| Ward:<br><br>Yr Alltwen | Anheddiad:<br><br>Yr Alltwen | Enw'r Adeilad: Capel yr Alltwen | |
| Cyf: ALL001 | Cam Dilysu I | Cam II | Cyfeirnod Grid: E272656 N203310 |
| Cyfeiriad: Bryn Llewellyn | | | |

Cynllun o Leoliad y Safle



Disgrifiad:

Capel mawr, traddodiadol, â ffenestri yn y dull Gothig a tho llechi. Mae'r wedd flaen wedi'i gorffen â cherrig gweddol blaen ac mae waliau wedi'u rendro ar yr ochrau ac yn y cefn. Mae'r neuadd gyfagos yn debyg o ran arddull a'r cyfan oddi mewn i fynwent fawr â wal o'i chwmpas. Gosodwyd ffenestri newydd UPVC.



| Diddordeb pensaernïol | X | Diddordeb hanesyddol | X | Cysylltiad hanesyddol/ diwylliannol | X | Gwerth o ran cymeriad y grŵp/yr anheddiad | X | Adeiladau lleol sy'n hen neu'n brin | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|

Cyfiawnhad dros Ystyried: Mae'r capel ar safle amlwg ar y bryn allan o'r pentref ac mae'n dirnod pwysig yng nghanol y gymuned. Mae ganddo werth o ran cymeriad y grŵp/yr anheddiad gydag adeiladau eraill o bwysigrwydd lleol (ALL002 ac 004) a'r ffynnon yfed goffa a'r rheiliau rhestredig.

Nodiadau: Mae dyddiadau 1861? ar y wedd flaen

Coflein: Adeiladwyd Capel yr Annibynwyr, yr Alltwen yn 1757, a'i addasu yn 1801 ac yn 1814. Cafodd ei ailadeiladu yn 1831 ac yn 1861, ac eto yn 1886 a'i addasu yn 1909. 1886 yw dyddiad y capel presennol a adeiladwyd yn y dull Gothig Syml gyda mynedfa yn y talcen.

<table>
<tr><td>Ward:<br><br>Yr Alltwen</td><td>Anheddiad:<br><br>Yr Alltwen</td><td colspan="2">Enw'r Adeilad: Eglwys Ioan Fedyddiwr</td></tr>
<tr><td>Cyf: ALL002</td><td>Cam Dilysu I</td><td>Cam II</td><td>Cyfeirnod Grid: E272618 N203328</td></tr>
<tr><td colspan="4">Cyfeiriad: Bryn Llewellyn, yr Alltwen</td></tr>
</table>

Cynllun o Leoliad y Safle



Disgrifiad:

Adeilad ysgol eglwys sy'n dyddio o 1893. Mae'n adeilad o waith cerrig gyda tho llechi a thalcenni amlwg yn y blaen a'r cefn. Ceir manylion brics coch, gan gynnwys o amgylch y ffenestri a'r drws. Defnyddir yr adeilad fel eglwys bellach.



| Diddordeb pensaernïol | X | Diddordeb hanesyddol | | Cysylltiad hanesyddol/ diwylliannol | X | Gwerth o ran cymeriad y grŵp/yr anheddiad | X | Adeiladau lleol sy'n hen neu'n brin | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|

Cyfiawnhad dros Ystyried:

Adeilad amlwg â chynllun ysgol traddodiadol sy'n edrych allan dros Driongl yr Alltwen. Mae ganddo werth o ran cymeriad y grŵp/yr anheddiad gydag adeiladau eraill o bwysigrwydd lleol (ALL001 ac 004) a'r ffynnon yfed goffa a'r rheiliau rhestredig.

Nodiadau

| | | | |
|---|---|---|---|
| Ward:<br><br>Yr Alltwen | Anheddiad:<br><br>Yr Alltwen | Enw'r Adeilad: Mount Pleasant a'r Warws/clwb | |
| Cyf: ALL004 | Cam Dilysu I | Cam II | Cyfeirnod Grid: E272580 N203388 |
| Y Triongl | | | |

Cynllun o Leoliad y Safle ,



Disgrifiad:

Annedd sylweddol o waith cerrig gyda manylion brics sydd wedi cadw elfennau o astell dywydd blaen y siop gynt, ynghyd â'r adeilad brics coch yn ymyl a fu'n warws gynt.



Google

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Diddordeb pensaernïol | | Diddordeb hanesyddol | | Cysylltiad hanesyddol/ diwylliannol | X | Gwerth o ran cymeriad y grŵp/yr anheddiad | X | Adeiladau lleol sy'n hen neu'n brin | X |

Cyfiawnhad dros Ystyried:

Tŷ sy'n dirnod amlwg, a fu gynt yn siop gyda blaen siop trawiadol a warws ar safle amlwg yn Nhriongl yr Alltwen. Mae ganddo werth o ran cymeriad y grŵp a'r anheddiad gydag adeiladau eraill o bwysigrwydd lleol (ALL001 ac 003) a'r ffynnon yfed goffa a'r rheiliau rhestredig.

Nodiadau

| Ward:<br><br>Yr Alltwen | Anheddiad:<br><br>Yr Alltwen | Enw’r Adeilad: Church House | |
|---|---|---|---|
| Cyf: ALL005 | Cam Dilysu I | Cam II | Cyfeirnod Grid: E272652 N203483 |
| Heol y Dyffryn | | | |

Cynllun o Leoliad y Safle



Disgrifiad:

Eglwys gynt, wedi'i haddasu. Adeilad o waith cerrig a godwyd yn y dull Gothig traddodiadol gyda tho llechi sydd bellach yn ymgorffori paneli gwydr a ffenestri to. Cadwyd y ran fwyaf o'r nodweddion allanol, gan gynnwys y portsh a'r clochdy.



Google

| Diddordeb pensaernïol | X | Diddordeb hanesyddol | | Cysylltiad hanesyddol/ diwylliannol | X | Gwerth o ran cymeriad y grŵp/yr anheddiad | X | Adeiladau lleol sy'n hen neu'n brin | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|

Cyfiawnhad dros Ystyried:

Addasiad diddorol o adeilad lleol pwysig sydd mewn llecyn amlwg – bu ganddo rôl gymunedol gynt.

Nodiadau: Coflein: Wedi'i ailadeiladu yn 1868

| | | | |
|---|---|---|---|
| Ward:<br><br>Yr Alltwen | Anheddiad:<br><br>Yr Alltwen | Enw'r Adeilad: Capel Dan y Graig | |
| Cyf: ALL007 | Cam Dilysu I | Cam II | Cyfeirnod Grid: E272874 N203918 |
| Cyfeiriad: Edward Street, yr Alltwen | | | |

Cynllun o Leoliad y Safle



Disgrifiad:

Capel Cymreig mawreddog, dyluniad traddodiadol, a adeiladwyd yn 1909. Mae ganddo waliau wedi'u rendro a manylion clasurol, gan gynnwys amgylchyniadau'r ffenestri a'r drysau.



| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Diddordeb pensaernïol | X | Diddordeb hanesyddol | | Cysylltiad hanesyddol/ diwylliannol | X | Gwerth o ran cymeriad y grŵp/yr anheddiad | X | Adeiladau lleol sy'n hen neu'n brin | |

Cyfiawnhad dros Ystyried:

Capel trawiadol ac amlwg sy'n edrych dros yr anheddiad a'r ardal breswyl o'i gwmpas ac yn rhoi cymeriad iddynt.

Nodiadau: Coflein: Adeiladwyd Capel yr Annibynwyr, Dan-y-graig yn 1909 yn y dull Is-glasurol gyda mynedfa yn y talcen a ffenestri â phennau gwastad a chwareli bychain. (Wedi'i blotio, trwy gamgymeriad, yng Ngelli-nudd)

| Ward:<br><br>Yr Alltwen | Anheddiad:<br><br>Yr Alltwen | Enw'r Adeilad: Canolfan Gymunedol yr Alltwen | |
|---|---|---|---|
| Cyf: ALL008 | Cam Dilysu I | Cam II | Cyfeirnod Grid: E272926 N203832 |
| Cyfeiriad: Heol y Dyffryn | | | |



Disgrifiad:

Adeiladau ysgol draddodiadol i blant bach, o waith cerrig gydag addurniadau brics a tho llechi. Mae'n cadw rhai o'r nodweddion addurniadol gwreiddiol, gan gynnwys yr estyll tywydd wedi'u haddurno a chanopi'r gloch.



Google

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Diddordeb pensaernïol | X | Diddordeb hanesyddol | | Cysylltiad hanesyddol/ diwylliannol | X | Gwerth o ran cymeriad y grŵp/yr anheddiad | X | Adeiladau lleol sy'n hen neu'n brin | |

Cyfiawnhad dros Ystyried:

Adeiladau ysgol o ddechrau'r ugeinfed ganrif yn eu cyflwr gwreiddiol, sy'n anarferol, a chanddynt rôl a chysylltiadau pwysig â'r gymuned leol.

Nodiadau:

## Pontardawe

| | | | |
|---|---|---|---|
| Ward:<br><br>Pontardawe | Anheddiad:<br>Pontardawe | Enw'r Adeilad: Neuadd Glanrhyd | |
| Cyf: PON001 | Cam Dilysu I | Cam II | Cyfeirnod Grid: E271887 N204131 |
| Cyfeiriad: Heol Glan Rhyd | | | |

Cynllun o Leoliad y Safle



Disgrifiad: Eglwys sy'n dyddio o ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Adeilad o waith cerrig gyda ffenestri Gothig, bwtresi a tho llechi serth mewn llecyn coediog a thawel. Clochdy trawiadol â tho llechi. (Gweler hefyd ddisgrifiad Coflein isod)



| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Diddordeb pensaernïol | X | Diddordeb hanesyddol | | Cysylltiad hanesyddol/ diwylliannol | X | Gwerth o ran cymeriad y grŵp/ yr anheddiad | X | Adeiladau lleol sy'n hen neu'n brin | |

Cyfiawnhad dros Ystyried: Mae adeilad Eglwys yr Holl Saint gynt yn nod tir lleol hynod â chynllun diddorol a thraddodiadol a oedd â rôl bwysig yn y gymuned leol yn y gorffennol.

Nodiadau: Coflein: Lleolir Eglwys yr Holl Saint ar ochr ddeheuol Heol Glan Rhyd. Fe'i hadeiladwyd yn 1885-6 yn y dull Lansed ar sail cynlluniau John Griffiths ac Arthur Gilbertson, ar gost yr ail o'r rhain, gan ddefnyddio tywodfeini Pennant garw wedi'u haddurno â cherrig nadd Pen-y-bont. Mae'r adeilad ar ffurf croes yn cynnwys corff yr eglwys a changell is, ale groes ogleddol sy'n cynnal y cwt clychau, a bedyddfa ar yr ochr orllewinol. Mae ffenestr ros yn y talcen gorllewinol. Y tu mewn i'r eglwys, mae'r reredosau o waith marmor gwyn ac alabastr pinc Penarth yn nodedig. Mae gwydr lliw ym mhob rhan o'r eglwys, sy'n cynnwys gwaith R.J. Newbery (1895).

| Ward: Pontardawe | Anheddiad: Pontardawe | Enw'r Adeilad: Canolfan Gymunedol y Groes | |
|---|---|---|---|
| Cyf: PON002 | Cam Dilysu I | Cam II | Cyfeirnod Grid: E272092 N204023 |
| Cyfeiriad: Y Stryd Fawr / Stryd Herbert | | | |

Cynllun o Leoliad y Safle



Disgrifiad: Adeilad a fu gynt yn westy/dafarn goetsys. Adeilad tri llawr ar gornel dwy stryd gyda phâr o dalcenni a phrif fynedfa a phortsh sy'n edrych dros y Stryd Fawr. Conglfeini, amgylchyniadau ffenestri a phedimentau o waith cerrig addurniadol a rendr wedi'i baentio ar y waliau. Y ffenestri a'r to llechi gwreiddiol.



| Diddordeb pensaernïol | X | Diddordeb hanesyddol | | Cysylltiad hanesyddol/ diwylliannol | X | Gwerth o ran cymeriad y grŵp/ yr anheddiad | X | Adeiladau lleol sy'n hen neu'n brin | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|

Cyfiawnhad dros Ystyried: Adeilad sylweddol iawn a nodwedd amlwg ar y Groes, Pontardawe. Adeilad sy'n dirnod trawiadol yng nghanol y dref ac yn bwysig o ran cymeriad yr anheddiad ac am resymau cymdeithasol.

Nodiadau:

| Ward: Pontardawe | Anheddiad: Ynysmeudwy | Enw'r Adeilad: New Church Temple | |
|---|---|---|---|
| Cyf: PON003 | Cam Dilysu I | Cam II | Cyfeirnod Grid: E273199 N205070 |
| Cyfeiriad: 86 Heol Newydd, Ynysmeudwy | | | |

Cynllun o Leoliad y Safle



| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Disgrifiad: Adeilad capel o waith cerrig y mae llawer o'i nodweddion gwreiddiol i'w gweld hyd heddiw, gan gynnwys rhywfaint o'r gwydr a'r ffenestri gwreiddiol, gyda ffenestri pen crwn ar y llawr uchaf ar flaen yr adeilad ac ar yr ochrau. Nodweddion cerrig goleuach.  | | | | | | | | | |
| Diddordeb pensaernïol | X | Diddordeb hanesyddol | | Cysylltiad hanesyddol/ diwylliannol | X | Gwerth o ran cymeriad y grŵp/ yr anheddiad | X | Adeiladau lleol sy'n hen neu'n brin | |
| Cyfiawnhad dros Ystyried: Adeilad capel trawiadol sydd wedi cael ei addasu'n ofalus gan gadw ei gymeriad gwreiddiol yn y stryd breswyl. | | | | | | | | | |
| Nodiadau: Coflein: Adeiladwyd New Church Swedenborgian Temple yn 1890. | | | | | | | | | |

| Ward: Pontardawe | Anheddiad: Pontardawe | Enw'r Adeilad: Canolfan Celfyddydau Pontardawe | |
|---|---|---|---|
| Cyf: PON006 | Cam Dilysu I | Cam II | Cyfeirnod Grid: E272298 N203974 |
| Cyfeiriad: Stryd Herbert | | | |

Cynllun o Leoliad y Safle



Disgrifiad: Adeilad trawiadol a arferai fod yn neuadd snwcer ac institiwt y gweithwyr ar safle amlwg iawn ger cyffordd Stryd Herbert a Stryd Holly. Mae gwaith brics coch ar lawr gwaelod yr adeilad gyda rendr wedi'i baentio uwchben hynny. Mae ffenestri bae ar ddwy lefel a ffenestri dormer bwaog anarferol a ffenestri bae ar yr ochr flaen.



| Diddordeb pensaernïol | X | Diddordeb hanesyddol | | Cysylltiad hanesyddol/ diwylliannol | X | Gwerth o ran cymeriad y grŵp/ yr anheddiad | X | Adeiladau lleol sy'n hen neu'n brin | X |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|

Cyfiawnhad dros Ystyried: Adeilad mawr a diddorol ar safle canolog ac amlwg iawn yng nghanol tref Pontardawe a chanddo rôl ganolog yn y gymuned. Gwnaed gwelliannau i'r lleoliad yn ddiweddar trwy gynllun gwella tref ar hyd Stryd Herbert a oedd yn cynnwys palmantu a chelfi stryd. Mae ganddo werth o ran y grŵp gydag adeilad y llyfrgell (PON007) ac Eglwys Bresbyteraidd Soar (PON014)

Nodiadau: Coflein: Roedd Neuadd ac Institiwt Cyhoeddus Pontardawe, a agorwyd ar 6 Mai 1909 gan y gantores opera Adelina Patti, yn cynnwys ystafell ddarllen, ystafell filiards ac ystafelloedd clybiau. Roedd lle i 1500 o bobl yn y neuadd gyhoeddus. Cadwyd y Neuadd a'r Institiwt, a gynhelid gan bwyllgor rheoli a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o'r capeli a'r undebau llafur lleol, ar agor tan 1994 pryd y trosglwyddodd y pwyllgor berchnogaeth yr adeilad i Gyngor Bwrdeistref Dyffryn Lliw ar y pryd. Agorwyd Canolfan Celfyddydau Pontardawe, sy'n meddiannu'r adeilad heddiw, yn 1996.

| Ward: Pontardawe | Anheddiad: Pontardawe | Enw'r Adeilad: Llyfrgell Pontardawe | |
|---|---|---|---|
| Cyf: PON007 | Cam Dilysu I | Cam II | Cyfeirnod Grid: E272340 N203993 |
| Cyfeiriad: Stryd Holly | | | |

Cynllun o Leoliad y Safle



Disgrifiad: Swyddfeydd Cyngor Dosbarth Gwledig Pontardawe gynt. Mae'n adeilad deulawr yn bennaf sy'n adleisio'r ganolfan celfyddydau gerllaw trwy ddefnyddio brics ar y llawr gwaelod a rendr wedi'i baentio uwchben hynny gyda rhai addurniadau manwl a pheth gwydr lliw.



| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Diddordeb pensaernïol | X | Diddordeb hanesyddol | | Cysylltiad hanesyddol/ diwylliannol | X | Gwerth o ran cymeriad y grŵp/ yr anheddiad | X | Adeiladau lleol sy'n hen neu'n brin | |

Cyfiawnhad dros Ystyried: O ran ei olwg, mae'r adeilad yn llawer llai addurniadol na Chanolfan y Celfyddydau, ond eto mae ganddo le pwysig yn hanes cymdeithasol yr ardal. Mae ganddo werth o ran y grŵp gyda Chanolfan Celfyddydau Pontardawe (PON006) ac Eglwys Bresbyteraidd Soar (PON014)

Nodiadau:

| Ward: | Anheddiad: | Enw'r Adeilad: | |
|---|---|---|---|
| Pontardawe | Pontardawe | Gwesty'r Ivy Bush | |
| Cyf: PON008 | Cam Dilysu I | Cam II | Cyfeirnod Grid: E272461 N204350 |
| Cyfeiriad: Y Stryd Fawr | | | |

Cynllun o Leoliad y Safle



Disgrifiad: Adeilad amlwg a thrawiadol ar yr hen brif ffordd â brics coch ar y llawr gwaelod a rendr wedi'i baentio uwchben hynny ac ochr heb ei rendro. Talcen, canopi/portsh gwreiddiol ac amlwg uwchben y drws mynediad, â'r arwydd a'r arysgrifiad gwreiddiol. Ffenestri a tho llechi gwreiddiol.



| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Diddordeb pensaernïol | X | Diddordeb hanesyddol | | Cysylltiad hanesyddol/ diwylliannol | X | Gwerth o ran cymeriad y grŵp/ yr anheddiad | X | Adeiladau lleol sy'n hen neu'n brin | |

Cyfiawnhad dros Ystyried: Adeilad trawiadol sy'n dirnod pwysig ac yn rhan o wead cymdeithasol y dref. Mae llawer o'i nodweddion gwreiddiol, gan gynnwys y ffenestri codi a'u fframiau pren, a'r portsh, i'w gweld hyd heddiw.

Nodiadau:

<table>
<tr><td>Ward: Pontardawe</td><td>Anheddiad:<br>Pontardawe</td><td colspan="2">Enw’r Adeilad: Adulam, Capel y Bedyddwyr</td></tr>
<tr><td>Cyf: PON009</td><td>Cam Dilysu I</td><td>Cam II</td><td>Cyfeirnod Grid: E272020 N203902</td></tr>
<tr><td colspan="4">Cyfeiriad: Heol Abertawe</td></tr>
</table>

Cynllun o Leoliad y Safle



Disgrifiad: Mae gwaith cerrig naturiol ar ochr flaen yr adeilad, gyda chymysgedd anarferol o frics coch a du ar hyd y conglfeini, y cyrsiau brics talsyth ac amgylchyniadau'r ffenestri. Mae rendr ar ochrau'r adeilad a ffenestri llawn. To llechi.



| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Diddordeb pensaernïol | X | Diddordeb hanesyddol | | Cysylltiad hanesyddol/ diwylliannol | X | Gwerth o ran cymeriad y grŵp/ yr anheddiad | X | Adeiladau lleol sy'n hen neu'n brin | |

Cyfiawnhad dros Ystyried: Adeilad mawreddog sy'n tynnu sylw ar y ffordd fawr i mewn i Bontardawe.

Nodiadau: Coflein: Adeiladwyd Adulam, Capel y Bedyddwyr yn 1845 a'i addasu/ailadeiladu yn 1899. Adeiladwyd capel 1899 yn y dull Gothig Syml gyda mynedfa yn y talcen.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Ward:<br><br>Ponardawe | Anheddiad:<br><br>Pontardawe | Enw'r Adeilad:<br><br>Gorsaf Heddlu Pontardawe | |
| Cyf: PON010 | Cam Dilysu I | Cam II | Cyfeirnod Grid: E272313 N204275 |
| Cyfeiriad: Y Stryd Fawr | | | |

Cynllun o Leoliad y Safle



Disgrifiad: Gorsaf heddlu solet a mawreddog sy'n dyddio o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg ac sy'n dal i gael ei defnyddio at ei diben gwreiddiol. Mae'n adeilad o waith cerrig naturiol sy'n cynnwys nodweddion cerrig a thoeon llechi drwyddo draw. Mae wal isel a rheiliau addurniadol o flaen yr adeilad.



| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Diddordeb pensaernïol | X | Diddordeb hanesyddol | | Cysylltiad hanesyddol/ diwylliannol | X | Gwerth o ran cymeriad y grŵp/ yr anheddiad | X | Adeiladau lleol sy'n hen neu'n brin | X |

Cyfiawnhad dros Ystyried: Adeilad sylweddol sydd heb newid fawr ddim ac sydd wedi bod yn rhan bwysig o wead cymdeithasol yr ardal am flynyddoedd lawer.

Nodiadau:

| Ward: Pontardawe | Anheddiad: Ynysmeudwy | Enw'r Adeilad: Capel Bethesda | |
|---|---|---|---|
| Cyf: PON012 | Cam Dilysu I | Cam II | Cyfeirnod Grid: E273598 N205447 |
| Cyfeiriad: Heol Newydd, Ynysmeudwy | | | |

Cynllun o Leoliad y Safle



Disgrifiad: Adeilad capel amlwg a mawreddog sy'n wynebu'r ffordd fawr. Mae'n adeilad o waith cerrig naturiol gyda manylion cerrig o amgylch agoriadau pen crwn y ffenestri a'r drysau. Mae ffenestr ganolog lydan uwchben y pâr o ddrysau mynediad, gyda ffenestr gul bob ochr iddi. To llechi.



| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Diddordeb pensaernïol | X | Diddordeb hanesyddol | | Cysylltiad hanesyddol/ diwylliannol | X | Gwerth o ran cymeriad y grŵp/ yr anheddiad | X | Adeiladau lleol sy'n hen neu'n brin | |

Cyfiawnhad dros Ystyried: Adeilad amlwg a nodedig ar safle gweladwy iawn. Mae nifer sylweddol o'r nodweddion gwreiddiol, gan gynnwys y ffenestri, i'w gweld hyd heddiw.

Nodiadau: Coflein: Adeiladwyd Bethesda, Capel yr Annibynwyr gyntaf yn 1863 gan y pensaer P. Griffiths. Cafodd ei ailadeiladu yn 1892 yn y dull pen crwn syml gyda mynedfa yn y talcen.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Ward:<br><br>Pontardawe | Anheddiad:<br><br>Pontardawe | Enw'r Adeilad:<br><br>Capel Presbyteraidd Soar | |
| Cyf: PON014 | Cam Dilysu I | Cam II | Cyfeirnod Grid: E272287 N204004 |
| Cyfeiriad: Stryd Holly | | | |

Cynllun o Leoliad y Safle



Disgrifiad: Capel deniadol, traddodiadol ei arddull â gwaith cerrig naturiol ar yr ochr flaen, gan gynnwys pilastrau cerrig a nodweddion eraill. Ffenestri pen crwn a phrif fynedfa ganolog. Mae wal isel a rheiliau metel addurniadol o flaen yr adeilad. To llechi.




| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Diddordeb pensaernïol | X | Diddordeb hanesyddol | | Cysylltiad hanesyddol/ diwylliannol | X | Gwerth o ran cymeriad y grŵp/ yr anheddiad | X | Adeiladau lleol sy'n hen neu'n brin | |

Cyfiawnhad dros Ystyried: Adeilad nodedig sy'n wynebu Canolfan y Celfyddydau ac sy'n helpu i ddiffinio'r sgwâr yng nghanol y dref. Mae ganddo werth o ran y grŵp gyda Chanolfan Celfyddydau Pontardawe (PON006) ac adeilad y llyfrgell (PON007)

Nodiadau: Coflein: Adeiladwyd Soar, Capel y Methodistiaid Soar yn 1866 a'i addasu yn 1901. Adeiladwyd y capel hwn o waith cerrig yn y dull Romanésg gyda mynedfa yn y talcen a ffenestri pen crwn â chwareli bach.

| Ward: Pontardawe | Anheddiad: Pontardawe | Enw’r Adeilad: Fferm Alltycham | |
|---|---|---|---|
| Cyf: PON016 | Cam Dilysu I | Cam II | Cyfeirnod Grid: E272164 N204779 |
| Cyfeiriad: Rhodfa Alltycham | | | |

Cynllun o Leoliad y Safle



Disgrifiad: Grŵp o fythynnod a thai allan o waith cerrig wedi'u gosod ar ffurf pedol, a oedd yn llety/stablau yn gysylltiedig â Thŷ Alltycham. Adeiladau cerrig yw'r rhain gyda thoeon llechi a phortshys pren, ac mae nodweddion bwa mawr y stablau i'w gweld hyd heddiw.





| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Diddordeb pensaernïol | X | Diddordeb hanesyddol | | Cysylltiad hanesyddol/ diwylliannol | X | Gwerth o ran cymeriad y grŵp/ yr anheddiad | | Adeiladau lleol sy'n hen neu'n brin | X |

Cyfiawnhad dros Ystyried: Grŵp o adeiladau fferm o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg sydd wedi'u haddasu mewn dull cydweddus a'u cadw mewn cyflwr da. Mae cysylltiad clir rhyngddynt a Thŷ Alltycham.

Nodiadau:

| Ward: Pontardawe | Anheddiad: Pontardawe | Enw'r Adeilad: Hen Fragdy | |
|---|---|---|---|
| Cyf: PON017 | Cam Dilysu I | Cam II | Cyfeirnod Grid: E272229 N204110 |
| Cyfeiriad: Ger y Stryd Fawr | | | |

Cynllun o Leoliad y Safle



Disgrifiad: Adeiladau cerrig ger y gamlas a fu gynt yn fragdy. Fe'u defnyddir fel stordai cyffredinol bellach. Drysau a ffenestri bwaog crwm, gan gynnwys mynedfeydd bwaog mawr. Mae rhannau o'r toeon llechi i'w gweld hyd heddiw.



| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Diddordeb pensaernïol | | Diddordeb hanesyddol | X | Cysylltiad hanesyddol/ diwylliannol | X | Gwerth o ran cymeriad y grŵp/ yr anheddiad | | Adeiladau lleol sy'n hen neu'n brin | X |

Cyfiawnhad dros Ystyried: Rhan o hanes Pontardawe sydd wedi goroesi, mewn cyflwr gwael mewn mannau ond gyda nodweddion bwâu cerrig trawiadol.

Nodiadau: Coflein: Bragdy segur a adeiladwyd yn y 1860au.

| Ward: Pontardawe | Anheddiad: Pontardawe | Enw'r Adeilad: Tafarn The Pontardawe Inn | |
|---|---|---|---|
| Cyf: PON0019 | Cam Dilysu I | Cam II | Cyfeirnod Grid: E272445 N203735 |
| Cyfeiriad: Ger Heol Castell-nedd, Pontardawe | | | |

Cynllun o Leoliad y Safle



Disgrifiad: Mae’r dafarn hon a adwaenir yn lleol fel `Y Gwachel’ ar ochr yr hen ffordd i mewn i Bontardawe o gyfeiriad Castell-nedd. Mae ganddi olwg a chymeriad traddodiadol hyd heddiw, gan gynnwys y portsh mynediad canolog amlwg.




| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Diddordeb pensaernïol | | Diddordeb hanesyddol | X | Cysylltiad hanesyddol/ diwylliannol | X | Gwerth o ran cymeriad y grŵp/ yr anheddiad | X | Adeiladau lleol sy’n hen neu’n brin | |

Cyfiawnhad dros Ystyried: Hen dafarn sefydledig a fu’n rhan ganolog o fywyd cymdeithasol Pontardawe ers blynyddoedd lawer. Wedi’i lleoli ar yr hen ffordd fawr i mewn i Bontardawe ger y bont restredig dros yr afon sy’n rhoi ei henw i’r dref.

Nodiadau:

| Ward: Pontardawe | Anheddiad: Pontardawe | Enw'r Adeilad: Tŷ Mawr | |
|---|---|---|---|
| Cyf: PON020 | Cam Dilysu I | Cam II | Cyfeirnod Grid: E272272 N203646 |
| Cyfeiriad: Heol Ynysderw, Pontardawe | | | |

Cynllun o Leoliad y Safle



Disgrifiad: Adeilad deulawr sylweddol a fu gynt yn swyddfa'r gwaith dur. Mae talcenni a phortsh mynediad amlwg ar ochr flaen yr adeilad. Waliau wedi'u rendro a'u paentio a tho llechi gyda nodwedd ganolog.



| Diddordeb pensaernïol | | Diddordeb hanesyddol | X | Cysylltiad hanesyddol/ diwylliannol | X | Gwerth o ran cymeriad y grŵp/ yr anheddiad | X | Adeiladau lleol sy'n hen neu'n brin | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|

Cyfiawnhad dros Ystyried: Addaswyd yr adeilad yn ofalus er mwyn cadw ei gymeriad. Yr unig adeilad sydd ar ôl o'r gwaith dur gwreiddiol sydd wedi'i ailddatblygu.

Nodiadau:

| Ward:<br><br>Pontardawe | Anheddiad:<br>Ynysmeudwy | Enw'r Adeilad:<br><br>Eglwys y Santes Fair | |
|---|---|---|---|
| Cyf: PON021 | Cam Dilysu I | Cam II | Cyfeirnod Grid: E273889 N205767 |
| Cyfeiriad: Heol Ynysmeudwy | | | |

Cynllun o Leoliad y Safle



Disgrifiad: Eglwys o waith cerrig a godwyd ar ddechrau'r ugeinfed ganrif gyda thoeon llechi, ffenestri gothig, bwtresi a chlochdy anarferol, mewn mynwent uwchlaw'r ffordd fawr. (Gweler disgrifiad Coflein isod).



Google

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Diddordeb pensaernïol | X | Diddordeb hanesyddol | | Cysylltiad hanesyddol/ diwylliannol | X | Gwerth o ran cymeriad y grŵp/ yr anheddiad | X | Adeiladau lleol sy'n hen neu'n brin | |

Cyfiawnhad dros Ystyried: Eglwys drawiadol sy'n dirnod ac yn chwarae rôl ganolog yn y gymuned leol.

Nodiadau: Coflein: Lleolwyd eglwys y Santes Fair ar dir uchel ar ochr ogledd-orllewinol Heol Ynysmeudwy (B4603). Fe'i hadeiladwyd yn 1911-12 gan y pensaer J.Cook Rees, Castell-nedd a ddefnyddiodd batrymau rhwyllweithiau geometregol yn ei gynllun. Adeiladwyd yr eglwys â thywodfeini wyneb garw Pennant a cherrig nadd Caerfaddon, o dan doeon llechi. Yn ogystal â chorff yr eglwys, sydd ag ale ogleddol, mae cangell is a chwt clychau uwchben bwa'r gangell, portsh ar yr ochr dde-orllewinol a festri ar yr ochr ogledd-ddwyreiniol. Y tu mewn i'r eglwys, roedd colofnau wythochrog. Roedd y gwydr lliw yn cynnwys gwaith yn y dull Gothig hwyr Almaenig. Mae'r eglwys yn wag bellach ac yn 2014, gwnaed cais am newid defnydd yr adeilad a'i droi yn annedd.

| Ward: Pontardawe | Anheddiad: Pontardawe | Enw'r Adeilad: | |
|---|---|---|---|
| Cyf: PON022 | Cam Dilysu I | Cam II | Cyfeirnod Grid: E272359 N204013 |
| Cyfeiriad: 21 Stryd Holly | | | |

Cynllun o Leoliad y Safle



Disgrifiad: Eiddo un talcen gyda blaen siop traddodiadol a ffenestr ochr â wal gerrig isel oddi tani, fframiau pren gyda gwydrau cul ac arwydd traddodiadol.



Google

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Diddordeb pensaernïol | X | Diddordeb hanesyddol | | Cysylltiad hanesyddol/ diwylliannol | X | Gwerth o ran cymeriad y grŵp/ yr anheddiad | X | Adeiladau lleol sy'n hen neu'n brin | |

Cyfiawnhad dros Ystyried: Enghraifft leol anarferol o flaen siop traddodiadol y mae ei holl nodweddion i'w gweld hyd heddiw. Mae'n cael effaith sylweddol ar gymeriad yr ardal leol.

Nodiadau:

| Ward:<br><br>Pontardawe | Anheddiad:<br><br>Pontardawe | Enw'r Adeilad: | |
|---|---|---|---|
| Cyf: PON023 | Cam Dilysu I | Cam II | Cyfeirnod Grid: E272052 N204047 |
| Cyfeiriad: 6 Stryd James | | | |

Cynllun o Leoliad y Safle



Disgrifiad: Eiddo hynod yng nghanol rhes o siopau (sy'n dyddio o'r 1930au?). Mae ganddo dalcen amlwg, gyda ffrâm goed a'r ffenestri gwreiddiol ar y llawr cyntaf, gan gynnwys ffenestr oriel. Mae'r colofnau gwreiddiol i'w gweld hyd heddiw ar y llawr gwaelod.




Google

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Diddordeb pensaernïol | X | Diddordeb hanesyddol | | Cysylltiad hanesyddol/ diwylliannol | X | Gwerth o ran cymeriad y grŵp/ yr anheddiad | X | Adeiladau lleol sy'n hen neu'n brin | |

Cyfiawnhad dros Ystyried: Adeilad hynod y mae ei gymeriad a'r rhan fwyaf o'i nodweddion gwreiddiol i'w gweld hyd heddiw.

Nodiadau:

| Ward: Pontardawe | Anheddiad: Pontardawe | Enw'r Adeilad: Capel Wesleaidd | |
|---|---|---|---|
| Cyf: PON024 | Cam Dilysu I | Cam II | Cyfeirnod Grid: E272029 N204151 |
| Cyfeiriad: Stryd James | | | |

Cynllun o Leoliad y Safle



Disgrifiad: Capel trawiadol ac anarferol mewn llecyn amlwg. Mae'r waliau wedi'u rendro a'u paentio ac mae'r nodweddion a'r ffenestri gwreiddiol i'w gweld hyd heddiw. Mae'r dyddiad (1902) a'r enw mewn llythrennau mawr ar flaen yr adeilad yn y dull Celf a Chrefft.




Google

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Diddordeb pensaernïol | X | Diddordeb hanesyddol | | Cysylltiad hanesyddol/ diwylliannol | X | Gwerth o ran cymeriad y grŵp/ yr anheddiad | X | Adeiladau lleol sy'n hen neu'n brin | |

Cyfiawnhad dros Ystyried: Capel â dyluniad Celf a Chrefft anarferol a nodweddion hynod, mewn llecyn amlwg ar un o'r prif ffyrdd allan o Bontardawe.

Nodiadau: Coflein: Adeiladwyd Capel Methodistaidd Stryd James yn 1854, a'i ailadeiladu yn 1862 ac eto yn 1902. Adeiladwyd capel 1902 yn y dull Celf a Chrefft gyda mynedfa yn y talcen.

| Ward: Pontardawe | Anheddiad: Pontardawe | Enw'r Adeilad: Yr Hen Sinema, 57 – 60 |
|---|---|---|

| Cyf: PON025 | Cam Dilysu I | Cam II | Cyfeirnod Grid: E272275 N203936 |
|---|---|---|---|
| Cyfeiriad: 57 – 60 Stryd Herbert | | | |

Cynllun o Leoliad y Safle



Disgrifiad: Yr hen sinema/neuadd gyngerdd, sydd bellach yn rhes o siopau gyda blaenau siopau traddodiadol unffurf ynghyd â'r bwa mynediad gwreiddiol gyda phileri, pedimentau a gwydr â llythrennau arno.



Google

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Diddordeb pensaernïol | X | Diddordeb hanesyddol | | Cysylltiad hanesyddol/ diwylliannol | X | Gwerth o ran cymeriad y grŵp/ yr anheddiad | X | Adeiladau lleol sy'n hen neu'n brin | |

Cyfiawnhad dros Ystyried: Adeilad yr hen neuadd gyngerdd/sinema ganolog sy'n rhoi cymeriad unigryw ychwanegol i ganol y dref.

Nodiadau: Coflein: Wedi'i gynnwys dan enw Palace Cinema: nid oes rhagor o wybodaeth

| Ward:<br><br>Pontardawe | Anheddiad: Rhyd y Fro | Enw'r Adeilad:<br><br>Capel Saron Newydd | |
|---|---|---|---|
| Cyf: PON026 | Cam Dilysu I | Cam II | Cyfeirnod Grid: : E271249 N206014 |
| Cyfeiriad: Commercial Road | | | |

Cynllun o Leoliad y Safle



Disgrifiad: Capel mawreddog ac amlwg ar y ffordd fawr ar gyrion yr anheddiad. Mae gwaith cerrig ar ochr flaen yr adeilad, gyda bwtresi ar y corneli a nodweddion cerrig goleuach, gan gynnwys y brif ffenestr fawr yn y dull Gothig.



Google

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Diddordeb pensaernïol | X | Diddordeb hanesyddol | | Cysylltiad hanesyddol/ diwylliannol | X | Gwerth o ran cymeriad y grŵp/ yr anheddiad | X | Adeiladau lleol sy'n hen neu'n brin | |

Cyfiawnhad dros Ystyried: Adeilad sy'n dirnod pwysig ar y ffordd fawr, wedi'i adeiladu yn lle'r Capel Saron gwreiddiol sydd gerllaw.

Nodiadau: Coflein: Adeiladwyd Capel Saron Newydd yn 1904 yn lle'r hen gapel yn Heol Saron. Fe'i codwyd gan ddefnyddio cyfuniad o'r arddull Gothig a'r arddull Celf a Chrefft gyda mynedfa yn y talcen.

| Ward:<br>Pontardawe | Anheddiad:<br>Pontardawe | Enw'r Adeilad: Enigma Hair Studio | |
|---|---|---|---|
| Cyf: PON027 | Cam Dilysu I | Cam II | Cyfeirnod Grid: E272228 N203968 |
| Cyfeiriad: 41- 43 Stryd Herbert | | | |

Cynllun o Leoliad y Safle



Disgrifiad: Blaen siop gwreiddiol a thraddodiadol, sy'n cynnwys mynedfa i'r lloriau uwch gyda phaneli pren, a drws siop sydd wedi'i osod ymhellach yn ôl na'r ffenestri, y gwydr gwreiddiol a'r ffenestri gwreiddiol ar y llawr cyntaf.




Google

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Diddordeb pensaernïol | X | Diddordeb hanesyddol | | Cysylltiad hanesyddol/ diwylliannol | X | Gwerth o ran cymeriad y grŵp/ yr anheddiad | X | Adeiladau lleol sy'n hen neu'n brin | |

Cyfiawnhad dros Ystyried: Mae'r blaen siop a'r ffenestri gwreiddiol yn cael effaith gadarnhaol ar y strydlun ac ar gymeriad canol y dref. Mae gan yr adeilad werth o ran y grŵp gyda siopau eraill yn y rhes (PON28 a PON29)

Nodiadau:

<table>
<tr><td>Ward:<br><br>Pontardawe</td><td>Anheddiad:<br><br>Pontardawe</td><td colspan="2">Enw’r Adeilad:<br><br>United Therapists/ Acorn</td></tr>
<tr><td>Cyf: PON028</td><td>Cam Dilysu I</td><td>Cam II</td><td>Cyfeirnod Grid: E272233 N203968</td></tr>
<tr><td colspan="4">Cyfeiriad: 44-46 Stryd Herbert</td></tr>
</table>

Cynllun o Leoliad y Safle



Disgrifiad: Blaen siop gwreiddiol a thraddodiadol (United Therapists) sy'n cyd-fynd ag adeilad PON29 ac yn cynnwys mynedfa i'r lloriau uwch gyda phaneli pren a drysau siopau sydd wedi'u gosod ymhellach yn ôl na'r ffenestri. Gwydr yn y dull gwreiddiol a'r ffenestri gwreiddiol ar y llawr cyntaf





Google

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Diddordeb pensaernïol | X | Diddordeb hanesyddol | | Cysylltiad hanesyddol/ diwylliannol | X | Gwerth o ran cymeriad y grŵp/ yr anheddiad | X | Adeiladau lleol sy'n hen neu'n brin | |

Cyfiawnhad dros Ystyried: Mae'r blaen siop a'r ffenestri gwreiddiol yn cael effaith gadarnhaol ar y strydlun ac ar gymeriad canol y dref. Mae gan yr adeilad werth o ran y grŵp gyda siopau eraill yn y rhes (PON27 a PON29)

Nodiadau:

<table>
<tr><td>Ward:<br><br>Pontardawe</td><td>Anheddiad:<br><br>Pontardawe</td><td colspan="2">Enw’r Adeilad: Pontardawe Florists</td></tr>
<tr><td>Cyf: PON029</td><td>Cam Dilysu I</td><td>Cam II</td><td>Cyfeirnod Grid: E272238 N203967</td></tr>
<tr><td colspan="4">Cyfeiriad: 46-47 Stryd Herbert</td></tr>
</table>

Cynllun o Leoliad y Safle



Disgrifiad: Blaen siop gwreiddiol a thraddodiadol sy’n cyd-fynd ag adeilad PON28 ac yn cynnwys mynedfa i’r lloriau uwch gyda phaneli pren a drws siop sydd wedi’i osod ymhellach yn ôl na’r ffenestri.



Google

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Diddordeb pensaernïol | X | Diddordeb hanesyddol | | Cysylltiad hanesyddol/ diwylliannol | X | Gwerth o ran cymeriad y grŵp/ yr anheddiad | X | Adeiladau lleol sy’n hen neu’n brin | |

Cyfiawnhad dros Ystyried: Mae’r blaen siop a’r ffenestri gwreiddiol yn cael effaith gadarnhaol ar y strydlun ac ar gymeriad canol y dref. Mae gan yr adeilad werth o ran y grŵp gyda siopau eraill yn y rhes (PON27 a PON28)

Nodiadau:

## Rhos

<table>
<tr><td>Ward:<br><br>Rhos</td><td>Anheddiad:<br><br>Rhos</td><td colspan="2">Enw’r Adeilad: Capel Ebenezer</td></tr>
<tr><td>Cyf: RHO001</td><td>Cam Dilysu I:</td><td>Cam II:</td><td>Cyfeirnod Grid: E273963 N202986</td></tr>
<tr><td colspan="4">Cyfeiriad: Heol Castell-nedd, Rhos</td></tr>
</table>

Cynllun o Leoliad y Safle



Disgrifiad: Adeilad capel cerrig naturiol, cymharol blaen, gyda chonglfeini cerrig a manylion cerrig o amgylch y ffenestri a'r brif fynedfa. Mae uwchben y ffordd ac o'i amgylch mae wal isel gyda rheiliau addurniadol arni. Dyddiedig 1904



| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Diddordeb pensaernïol | X | Diddordeb hanesyddol | | Cysylltiad hanesyddol/ diwylliannol | X | Gwerth o ran Cymeriad y Grŵp / yr Anheddiad | X | Adeiladau Lleol sy'n Hen neu'n Brin | |

Cyfiawnhad dros Ystyried:Adeilad capel amlwg gydag Ysgol Sul yn y cefn. Lleoliad canolog yn y pentref, gydag effaith sylweddol ar gymeriad yr anheddiad.

Nodiadau: Coflein (2 gyfeiriad): Codwyd Ebenezer, Capel yr Annibynwyr yn 1904 yn y dull pengrwn syml, gyda mynedfa yn y talcen. Codwyd Ebenezer, Capel yr Annibynwyr yn 1860, ei ailadeiladu yn 1883 a'i ailadeiladu eto yn 1904.

| Ward: Rhos | Anheddiad: Cilybebyll | Enw'r Adeilad: Plas Cilybebyll | |
|---|---|---|---|
| Cyf: RHO005 | Cam Dilysu I: | Cam II: | Cyfeirnod Grid: E274836 N204174 |
| Cyfeiriad: Heol Cwm Nant Llwyd | | | |

Cynllun o Leoliad y Safle



Disgrifiad: Plasty gwledig mawr trawiadol gydag adeiladau cysylltiedig sy'n cynnwys tŷ haf ac orendy. Cynllun cymesur gyda phortsh canolog, adeiladau dormer trawiadol addurniedig a'r ffenestri gwreiddiol. Rendr llwyd gyda thoeon llechi.



| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Diddordeb pensaernïol | X | Diddordeb hanesyddol | X | Cysylltiad hanesyddol/ diwylliannol | X | Gwerth o ran Cymeriad y Grŵp / yr Anheddiad | X | Adeiladau Lleol sy'n Hen neu'n Brin | |

Cyfiawnhad dros Ystyried: Plasty gwledig mawr sylweddol ac adeiladau cysylltiedig ar diroedd helaeth, gyda hanes hir (gweler isod). Gwerth grŵp gyda Bythynnod Gwyliau Cwm Tawe (RHO006)

Nodiadau: Sefydlwyd ystâd Cilybebyll yn y 15fed ganrif, ac ar ôl cael ei datblygu gan sawl teulu, erbyn 1838 cofnodwyd mai yno yr oedd y daliad tir mwyaf yn y dosbarth. Ailddatblygwyd y prif dŷ, Plas Cilybebyll, yn 1840 gan Henry Leach, a greodd ffasâd Fictoraidd yn wynebu'r de ar yr eiddo. (Wikipedia). Gweler hefyd Fythynnod Gwyliau Cwm Tawe RHO006. Lluniau ychwanegol ar gael.

Coflein: Mae'r rhan fwyaf o'r adeilad presennol yn dyddio o ailfodelu helaeth yn yr 1840au.

| Ward:<br><br>Rhos | Anheddiad:<br><br>Cilybebyll | Enw’r Adeilad: Bythynnod Gwyliau Cwm Tawe | |
|---|---|---|---|
| Cyf: RHO006 | Cam Dilysu I: | Cam II: | Cyfeirnod Grid: E274860 N204103 |
| Cyfeiriad: Heol Cwm Nant Llwyd | | | |

Cynllun o Leoliad y Safle



Disgrifiad

Adeilad a fu gynt yn stablau/coetsws i Blas Cilybebyll, ac sydd bellach wedi'i drosi'n fythynnod gwyliau. Cynllun cymesur gyda llety bob ochr i'r brif fynedfa (sydd bellach wedi'i mewnlenwi). Cerrig naturiol a tho llechi.



Google

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Diddordeb pensaernïol | X | Diddordeb hanesyddol | | Cysylltiad hanesyddol/ diwylliannol | X | Gwerth o ran Cymeriad y Grŵp / yr Anheddiad | X | Adeiladau Lleol sy'n Hen neu'n Brin | X |

Cyfiawnhad dros Ystyried: Adeiladau coetsws/stablau urddasol. Gwerth grŵp gydag ystâd Plas Cilybebyll (RHO005).

Nodiadau: Gweler hefyd Plas Cilybebyll RHO005.

## Trebannws

| Ward: Trebannws | Anheddiad: Trebannws | Enw'r Adeilad: Eglwys Mihangel Sant a'r Holl Angylion | |
|---|---|---|---|
| Cyf: TRE001 | Cam Dilysu I: | Cam II: | Cyfeirnod Grid: E270948 N202430 |
| **Cyfeiriad**: Heol Abertawe | | | |

Cynllun o Leoliad y Safle



Disgrifiad:

Adeilad eglwys fach draddodiadol. Adeilad cerrig a llechi gyda thŵr clychau bychan, ffenestri pengrwn a phortsh sylweddol. (Gweler disgrifiad Coflein isod)



| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Diddordeb pensaernïol | X | Diddordeb hanesyddol | | Cysylltiad Hanesyddol / Diwylliannol | X | Gwerth o ran Cymeriad y Grŵp / yr Anheddiad | X | Adeiladau Lleol sy'n Hen neu'n Brin | |

Cyfiawnhad dros ei ystyried:

Eglwys fach nodweddiadol mewn cyflwr gwreiddiol da ar safle agored mewn lle amlwg yn yr anheddiad.

Nodiadau: Coflein: Mae eglwys Mihangel Sant ar ochr dde-ddwyreiniol Heol Abertawe trwy Drebannws. Fe'i codwyd yn 1912 yn null Lancet yn ôl dyluniad y pensaer G.T.Bassett o Aberystwyth. Mae wedi'i adeiladu o gyrsiau tywodfaen â gorchudd craig o dan doeon llechi. Mae'n eglwys fechan, ac yn cynnwys corff a changell, clochlofft yn y gorllewin, portsh yn nhalcen y gogledd-orllewin a festri yn nhalcen y gogledd-ddwyrain. Mae'r gwydr lliw o waith T.F.Curtis o Ward & Hughes (1912) a Celtic Studios (1951-5).

| Ward: Trebanos | Anheddiad: Trebannws | Enw'r Adeilad: Capel y Graig | |
|---|---|---|---|
| Cyf: TRE002 | Cam Dilysu I: | Cam II: | Cyfeirnod Grid: E271132 N202660 |
| Cyfeiriad: Heol Abertawe | | | |

Cynllun o Leoliad y Safle



Disgrifiad:

Adeiladwyd yn 1893, ac mae uwchben y ffordd fawr. Dyluniad traddodiadol o waith cerrig gyda nodweddion cerrig a tho llechi sy'n cadw'r ffenestri pengrwn gwreiddiol trawiadol.



| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Diddordeb pensaernïol | X | Diddordeb hanesyddol | | Cysylltiad Hanesyddol / Diwylliannol | X | Gwerth o ran Cymeriad y Grŵp / yr Anheddiad | X | Adeiladau Lleol sy'n Hen neu'n Brin | |

Cyfiawnhad dros ei ystyried:

Adeilad trawiadol mewn cyflwr gwreiddiol sydd mewn lle amlwg yn yr anheddiad.

Nodiadau: Hefyd y neuadd yn ymyl? Coflein: Codwyd y Graig, Capel yr Undodiaid, yn 1893 yn y dull Pengrwn, gyda mynedfa yn y talcen.

<table>
<tr><td>Ward:<br><br>Trebanos</td><td>Anheddiad:<br><br>Trebannws</td><td colspan="2">Enw’r Adeilad: Capel Gosen</td></tr>
<tr><td>Cyf: TRE003</td><td>Cam Dilysu I:</td><td>Cam II:</td><td>Cyfeirnod Grid: E271174 N202784</td></tr>
<tr><td colspan="4">Cyfeiriad: Heol Abertawe</td></tr>
</table>

Cynllun o Leoliad y Safle



Disgrifiad:

Capel yn y dull traddodiadol, wedi'i adeiladu o gerrig gyda nodweddion gwaith cerrig a tho llechi. Dyddiedig 1865, ailadeiladwyd yn 1891. Wedi'i osod yn ôl o'r ffordd fawr.



Google

| Diddordeb pensaernïol | X | Diddordeb hanesyddol | | Cysylltiad Hanesyddol / Diwylliannol | X | Gwerth o ran Cymeriad y Grŵp / yr Anheddiad | X | Adeiladau Lleol sy'n Hen neu'n Brin | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|

Cyfiawnhad dros ystyried:


Adeilad trawiadol, amlwg mewn cyflwr gwreiddiol da. I gynnwys y wal flaen, y rheiliau a'r gatiau.

Nodiadau: Coflein: Adeiladwyd Gosen, Capel yr Annibynwyr yn 1865, ei addasu yn 1869 a'i ailadeiladu yn 1891. Codwyd capel 1891 yn y dull Is-Glasurol gyda mynedfa yn y talcen.

## Aberafan

| Ward: Aberafan | Anheddiad: Aberafan | Enw'r Adeilad: Eglwys Efengylaidd Bethlehem | |
|---|---|---|---|
| Cyf: ABA001 | Cam Dilysu I: | Cam II: | Cyfeirnod Grid: E275667 N189913 |
| Cyfeiriad: Heol Victoria/Teras Pendarvis | | | |

Cynllun o Leoliad y Safle



Disgrifiad:

Capel traddodiadol trawiadol o waith cerrig (Gweler disgrifiad Coflein isod).



| Diddordeb pensaernïol | X | Diddordeb hanesyddol | | Cysylltiad Hanesyddol/ Diwylliannol | X | Gwerth o ran cymeriad y grŵp/yr anheddiad | X | Adeiladau Lleol sy'n Hen neu'n Brin | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|

Cyfiawnhad dros ei ystyried:

Adeilad lleol amlwg, nodedig, sy'n rhan o wead cymdeithasol yr ardal.

Nodiadau: Coflein: Adeiladwyd Bethlehem, Capel y Methodistiaid, yn 1914 ar safle Neuadd Sandfields (NPRN 404411). Mae wedi'i godi yn y dull Clasurol, gyda mynedfa yn y talcen, ac mae rhan ganol y ffasâd wedi'i gosod rywfaint ymhellach ymlaen na'r ddwy adran allanol. Mae'r drws canolog mawr, sydd â phen crwn, wedi'i amgylchynu â cherrig nadd, ac mae'r dyddiad 1914 ar y maen clo. Uwchben y drysau dwbl mae ffenestr linter gyda chyfres o chwe phanel gwydr grisiog, pen crwn, a ffenestri plwm gyda motiffau Art Noveau mewn gwydr lliw. Uwchben y drws mae ffenestr fawr pen crwn, gyda voussoirs tebyg o ran eu mowldio i'r drws, a maen clo Irage gydag addurno ffliwtiog a throed siâp triongl. Yr arysgrif ar y voussoirs yw 'BETHLEHEM F M HALL'. Mae pen fflat i'r ffenestri ar y llawr gwaelod a'r llawr cyntaf, ac mae panel carreg wedi'i osod yn fertigol rhyngddynt, wedi'i addurno â phetryal wedi'i fewnosod. Uwchben y ffenestri ar y llawr cyntaf ceir pediment trionglog. Nodir y pediment adeiniog gan gyfres o gorbelau bychain wedi'u mowldio sy'n cynnal y cornis a llinell y bargod. Yn 2003 roedd yn dal i gael ei ddefnyddio fel Eglwys Efengylaidd Bethlehem.

| Ward: Aberafan | Anheddiad: Aberafan | Enw’r Adeilad: Eglwys ac Ysgol Sul Salem | |
|---|---|---|---|
| Cyf: ABA002 | Cam Dilysu I: | Cam II: | Cyfeirnod Grid: E275703 190075 |
| Cyfeiriad: Heol Sandfields | | | |

Cynllun Lleoliad y Safle



Disgrifiad:

Wedi'i adeiladu o gerrig naturiol gyda manylion cerrig goleuach, gan gynnwys conglfeini ac amgylchyniadau'r ffenestri (Gweler disgrifiad Coflein isod).



| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Diddordeb pensaernïol | X | Diddordeb hanesyddol | | Cysylltiad hanesyddol / diwylliannol | X | Gwerth o ran cymeriad y grŵp / yr anheddiad | X | Adeiladau lleol sy'n hen neu'n brin | |

Cyfiawnhad dros Ystyried:

Adeilad nodedig mewn grid o dai teras bach sy'n arwydd o'r twf cyflym a welwyd yn yr oes ddiwydiannol yn sgîl y gwaith dur a'r porthladd.

Nodiadau: Coflein: Adeiladwyd Ysgol Sul gyntaf ar y safle hwn yn 1814, ac nid ychwanegwyd capel tan ar ôl 1913. Adeiladwyd y capel diweddarach yn y dull Gothig gyda mynedfa yn y talcen. Mae ffenestr hir, fawr ac amlwg iawn yn y ffasâd gyda rhwyllwaith cerrig ac mae'r baeau allanol wedi'u gosod yn ôl ychydig, gyda ffenestri pigyn. Yn 2003, cofnodwyd bod y capel hwn yn segur.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Ward: Aberafan | Anheddiad: Aberafan | Enw’r Adeilad: Eglwys Sant Paul | |
| Cyf : ABA003 | Cam Dilysu I: | Cam II: | Cyfeirnod Grid: E275619 N189908 |
| Cyfeiriad: Teras Pendarvis | | | |

Cynllun o Leoliad y Safle



Disgrifiad:

Eglwys hardd o waith cerrig ar safle cornel amlwg gyda chwrtil helaeth (Gweler disgrifiad Coflein isod).



| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Diddordeb pensaernïol | X | Diddordeb hanesyddol | | Cysylltiad hanesyddol/ diwylliannol | X | Gwerth o ran cymeriad y grŵp/yr anheddiad | X | Adeiladau lleol sy'n hen neu'n brin | |

Cyfiawnhad dros Ystyried:

Mae'r adeilad yn dirnod ar y brif ffordd o Bort Talbot i Draeth Aberafan ac mae ganddo le pwysig yn y gymuned.

Nodiadau: Coflein: Mae eglwys Sant Paul ar ochr dde-orllewinol Teras Pendarvis. Fe'i hadeiladwyd yn 1910 ar draul Syr Arthur Vivian; ni wyddom enw'r pensaer. Fe'i hadeiladwyd gan ddefnyddio tywodfeini Pennant gyda cherrig nadd Caerfaddon tenau o dan y toeon llechi. Mae ganddi gynllun croesffurf, ac mae echel hir yr eglwys yn rhedeg o'r gogledd-orllewin i'r de-ddwyrain, ac yn cynnwys corff â llofft olau a changell gromfannol o dan un to, cwt cloch sengl yn y gornel rhwng y transept deheuol a'r gangell a festri dalcennog wrth wal dde-ddwyreiniol y transept, a mynedfa yn nhalcen y gogledd-ddwyrain. Y tu mewn, ceir llwybrau ar ffurf aleon, bwâu sy'n ymestyn o'r llawr i amgáu ffenestri'r llofft olau a gwaith brics llwyd yn y golwg.

<table>
<tr><td>Ward:<br><br>Aberafan</td><td>Anheddiad:<br><br>Aberafan</td><td colspan="2">Enw'r Adeilad: Yr Hen Orsaf Dân</td></tr>
<tr><td>Cyf : ABA005</td><td>Cam Dilysu I:</td><td>Cam II:</td><td>Cyfeirnod Grid: E276142 N189925</td></tr>
<tr><td colspan="4">Address: Water Street</td></tr>
</table>

Site Location Plan



Disgrifiad:

Gorsaf Dân Aberafan gynt. Adeilad o waith cerrig gyda ffasâd brics (diweddarach?) sy'n dyddio o 1912. Addaswyd tu blaen yr adeilad ar y llawr gwaelod i gynnwys ffenestri a drws modern.




Google

| Diddordeb pensaernïol | | Diddordeb hanesyddol | X | Cysylltiad hanesyddol/ diwylliannol | X | Gwerth o ran cymeriad y grŵp/yr anheddiad | | Adeiladau lleol sy'n hen neu'n brin | X |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|

Cyfiawnhad dros Ystyried: Gorsaf dân wreiddiol o ddechrau'r ugeinfed ganrif, wedi'i haddasu yn fwy diweddar ar gyfer amryw o ddefnyddiau. Adnewyddwyd ac ehangwyd yr adeilad yn ddiweddar i'w ddefnyddio fel canolfan gyflogadwyedd.

Nodiadau:

| Ward: Aberafan | Anheddiad: Aberafan | Enw'r Adeilad: Kash Superstore (y Co-op gynt?) | |
|---|---|---|---|
| Cyf: ABA006 | Cam Dilysu I: | Cam II: | Cyfeirnod Grid: E276050 N190037 |
| Address: Bailey Street | | | |

Site Location Plan



Disgrifiad: Adeilad siop trawiadol gyda manylion yn null Art Deco, gan gynnwys ffenestr fargodol sy'n nodwedd ganolog, pedimentau ac addurniadau ar ffurf gwaith cerrig geometrig. Mae ffurf wreiddiol blaen y siop i'w gweld yn amlwg er gwaetha'r addasiadau modern.




Google

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Diddordeb pensaernïol | X | Diddordeb hanesyddol | | Cysylltiad hanesyddol/ diwylliannol | X | Gwerth o ran cymeriad y grŵp/yr anheddiad | X | Adeiladau lleol sy'n hen neu'n brin | |

Cyfiawnhad dros Ystyried: Adeilad amlwg a thrawiadol yn yr ardal leol sydd â hanes a manylion pensaernïol diddorol.

Nodiadau:

## Baglan

| Ward: Baglan | Anheddiad: Baglan | Enw'r Adeilad: Porthdy Baglan | |
|---|---|---|---|
| Cyf: BAG001 | Cam Dilysu I: | Cam II: | Cyfeirnod Grid: E274699 N192632 |
| Cyfeiriad: Glan Hafren | | | |

Cynllun o Leoliad y Safle



Disgrifiad:

Adeilad a fu'n borthdy gynt sydd bellach yn agos at ffordd ddeuol brysur. Wedi'i adeiladu â cherrig nadd gyda theils rosemary, teils crib addurniadol, dwy simnai amlwg a nodweddion gwreiddiol eraill.



| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Diddordeb pensaernïol | X | Diddordeb hanesyddol | | Cysylltiad hanesyddol/ diwydiannol | X | Gwerth o ran cymeriad y grŵp/yr anheddiad | | Adeiladau lleol sy'n hen neu'n brin | X |

Cyfiawnhad dros Ystyried:

Ar un adeg safai'r adeilad hwn ger y fynedfa i ystâd Plas Baglan ac mae'n ddolen gyswllt i hanes a datblygiad yr ardal. Gweler hefyd BAG004

Nodiadau

| Ward: Baglan | Anheddiad: Baglan | Enw'r Adeilad: 5 Old Road ac Eglwys Baglan Sant | |
|---|---|---|---|
| Cyf: BAG002 | Cam Dilysu I: | Cam II: | Cyfeirnod Grid: E274222 N193479 |
| Cyfeiriad: Old Road, Baglan | | | |

Cynllun o Leoliad y Safle



Disgrifiad:

Adeilad ysgol unllawr o waith cerrig gyda thŷ cerrig deulawr yn gysylltiedig ag ef, a'r cyfan â thoeon llechi. Mae dilyniant o fargodau cul yn ymwthio allan o wal flaen adeilad yr ysgol. Mae'r adeilad wedi'i gadw'n dda yn ei gyflwr gwreiddiol drwyddo draw, gan gynnwys y ffenestri.



| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Diddordeb pensaernïol | X | Diddordeb hanesyddol | | Cysylltiad hanesyddol/ diwydiannol | X | Gwerth o ran cymeriad y grŵp/yr anheddiad | | Adeiladau lleol sy'n hen neu'n brin | X |


Cyfiawnhad dros Ystyried:

Adeilad nodedig (defnyddir adeilad yr ysgol fel eglwys bellach) sydd wedi'i gadw'n ofalus, ac a fu'n rhan o wead cymdeithasol Baglan.

Nodiadau

| Ward: Baglan | Anheddiad: Baglan | Enw'r Adeilad: Porthdy | |
|---|---|---|---|
| Cyf: BAG004 | Cam Dilysu I: | Cam II: | Cyfeirnod Grid: E274951 N192820 |
| Address: 32 Lodge Drive, Baglan | | | |

Cynllun o Leoliad y Safle



Disgrifiad:

Adeilad a fu gynt yn borthdy i Blas Baglan. Mae'n adeilad cerrig nadd o dan do llechi sydd â nifer o'i nodweddion gwreiddiol o hyd, gan gynnwys y ffenestri dormer, yr addurniadau fframiau pren a'r simnai.



Google

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Diddordeb pensaernïol | X | Diddordeb hanesyddol | | Cysylltiad hanesyddol/ diwydiannol | X | Gwerth o ran cymeriad y grŵp/yr anheddiad | X | Adeiladau lleol sy'n hen neu'n brin | X |

Cyfiawnhad dros Ystyried:


Un o adeiladau Ystâd Plas Baglan sy'n ddolen gyswllt i hanes yr ardal. Gweler hefyd BAG001.

Nodiadau

## Bryn a Cwmafan

| Ward: Bryn a Chwmafan | Anheddiad: Oakwood | Enw’r Adeilad: Hen Eglwys Sant Ioan | |
|---|---|---|---|
| Cyf: BCA001 | Cam Dilysu I | Cam II | Cyfeirnod Grid: E279441 N193985 |
| Cyfeiriad: Rhodfa Oakwood | | | |

Cynllun o Leoliad y Safle



Disgrifiad: Adeilad eglwys traddodiadol o ddechrau'r 20fed ganrif, wedi'i leoli yn y fynwent wreiddiol sy'n nodwedd arwyddocaol ac yn llecyn agored yng nghanol y pentref. Mae'r adeilad wedi'i rendro a'i adnewyddu a'i droi yn breswylfa. Gosodwyd ffenestri newydd yn lle'r rhan fwyaf o'r hen ffenestri neu rannau ohonynt, ond cadwyd rhywfaint o'r rhwyllwaith cerrig gwreiddiol ynghyd â'r nodweddion gwaith cerrig a'r cerrig sy'n amgylchynu'r drws. Mae gan yr adeilad glochdy bach ar y pen gorllewinol a phortsh mynediad sylweddol.




| Diddordeb pensaernïol | X | Diddordeb hanesyddol | | Cysylltiad hanesyddol/ diwylliannol | X | Gwerth o ran cymeriad y grŵp/yr anheddiad | X | Adeiladau lleol sy'n hen neu'n brin | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|

Cyfiawnhad dros Ystyried: Adeilad pwysig ac amlwg yng nghanol y pentref sydd wedi'i addasu gan gadw rhywfaint o'i gymeriad a'i ffurf gwreiddiol. Mae ganddo werth grŵp gydag adeiladau ysgol y pentref (BCA002) a Chapel Bethel, sy'n adeilad rhestredig.

Nodiadau: Coflein: Wedi'i nodi ond nid oes rhagor o wybodaeth

<table>
<tr><td>Ward:<br><br>Bryn a Chwmafan</td><td>Anheddiad:<br><br>Oakwood</td><td colspan="3">Enw’r Adeilad: Ysgol Gynradd Pont-rhyd-y-fen gynt</td></tr>
<tr><td>Cyf: BCA002</td><td colspan="2">Cam Dilysu I</td><td>Cam II</td><td>Cyfeirnod Grid: E277396 N194038</td></tr>
<tr><td colspan="5">Cyfeiriad: Stryd yr Ysgol</td></tr>
</table>

Cynllun o Leoliad y Safle



Disgrifiad: Adeilad ysgol unllawr, traddodiadol gyda thalcenni ffenestrog amlwg yn wynebu'r ffordd. Wedi'i adeiladu o gerrig nadd a llechi gyda chonglfeini a gwaith carreg nodwedd o amgylch y ffenestri a'r drysau.

.



| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Diddordeb pensaernïol | X | Diddordeb hanesyddol | | Cysylltiad hanesyddol/ diwylliannol | X | Gwerth o ran cymeriad y grŵp/yr anheddiad | X | Adeiladau lleol sy'n hen neu'n brin | |

Cyfiawnhad dros Ystyried: Adeiladau ysgol gynradd traddodiadol yng nghanol y gymuned. Rhoddwyd caniatâd bellach i'w haddasu'n breswylfa. Mae gan yr adeilad werth o ran cymeriad y grŵp neu'r anheddiad gydag Eglwys Sant Ioan (BCA001) a Chapel Bethel, sy'n adeilad rhestredig.

Nodiadau:

<table>
<tr><td>Ward:<br><br>Bryn a Chwmafan</td><td>Anheddiad:<br><br>Cwmafan</td><td colspan="2">Enw’r Adeilad: Tafarn y Rolling Mill</td></tr>
<tr><td>Cyf: BCA004</td><td>Cam Dilysu I</td><td>Cam II</td><td>Cyfeirnod Grid: E278774 N192648</td></tr>
<tr><td colspan="4">Cyfeiriad: Heol Salem</td></tr>
</table>

Cynllun o Leoliad y Safle



Disgrifiad: Tafarn o ddechrau'r ugeinfed ganrif sy'n wynebu'r ffordd fawr rhwng Cwmafan a Phont-rhyd-y-fen. Mae'r llawr gwaelod o waith brics gyda rendr wedi'i baentio ar y llawr cyntaf, a dau ddrws mynediad â bwâu addurniedig.




| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Diddordeb pensaernïol | X | Diddordeb hanesyddol | | Cysylltiad hanesyddol/ Diwylliannol | X | Gwerth o ran cymeriad y grŵp/yr anheddiad | X | Adeiladau lleol sy'n hen neu'n brin | |

Cyfiawnhad dros Ystyried: Adeilad amlwg ar y ffordd i mewn i Gwmafan ac iddo rôl gymunedol bwysig. Mae enw'r dafarn yn adlewyrchu hanes yr anheddiad.

Nodiadau:

| | | | |
|---|---|---|---|
| Ward:<br>Bryn a Chwmafan | Anheddiad:<br>Cwmafan | Enw'r Adeilad: Neuadd yr Eglwys | |
| Cyf: BCA008 | Cam Dilysu I | Cam II | Cyfeirnod Grid: E277958 N192082 |
| Cyfeiriad: Teras yr Ysgol | | | |

Cynllun o Leoliad y Safle



Disgrifiad: Adeilad eglwysig syml ond hardd sydd ar wahân i adeilad rhestredig eglwys Sant Paul, ac yn wynebu'r brif ffordd. Mae'n adeilad carreg naturiol gyda manylion brics llwydfelyn a tho llechi.



| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Diddordeb pensaernïol | X | Diddordeb hanesyddol | | Cysylltiad hanesyddol/<br><br>Diwylliannol | X | Gwerth o ran cymeriad y grŵp/yr anheddiad | X | Adeiladau lleol sy'n hen neu'n brin | |

Cyfiawnhad dros Ystyried: Adeilad nodedig yng nghanol y pentref, bron gyferbyn â'r ysgol. Mae ganddo werth o ran cymeriad y grŵp a'r anheddiad gyda'r Ysgol Fabanod (BCA003) gyferbyn.

Nodiadau:

| Ward:<br><br>Bryn a Chwmafan | Anheddiad: Bryn | Enw’r Adeilad: Bryn Gyrnos | |
|---|---|---|---|
| Cyf: BCA009 | Cam Dilysu I | Cam II | Cyfeirnod Grid: E281015 N192078 |
| Cyfeiriad: Teras y Capel | | | |

Cynllun o Leoliad y Safle



Disgrifiad: Ffermdy traddodiadol o waith cerrig, wedi'i foderneiddio. Credir ei fod yn dyddio o tua 1700. Rendr wedi'i baentio'n wyn a tho teils modern.



Google

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Diddordeb pensaernïol | | Diddordeb hanesyddol | X | Cysylltiad hanesyddol/<br><br>Diwylliannol | X | Gwerth o ran cymeriad y grŵp/yr anheddiad | X | Adeiladau lleol sy'n hen neu'n brin | X |


Cyfiawnhad dros Ystyried:

Ffermdy traddodiadol sydd wedi cadw'i ffurf wreiddiol er bod ei olwg wedi newid.

Nodiadau: Coflein: Tŷ hir tair uned, gyda beudy yn y pen uchaf: yn dyddio o tua 1700 ond wedi'i addasu ers hynny.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Ward:<br><br>Bryn a Chwmafan | Anheddiad: Bryn | Enw'r Adeilad: Tafarn y Royal Oak | |
| Cyf: BCA010 | Cam Dilysu I | Cam II | Cyfeirnod Grid: E281885 N192003 |
| Cyfeiriad: Heol Maesteg | | | |

Cynllun o Leoliad y Safle



Disgrifiad: Tafarn brics coch sylweddol ei maint sy'n dyddio o Oes Victoria ar safle cornel siâp triongl gyda thu blaen crwm yn wynebu'r gyffordd. Mae gwahanol driniaethau i'r ffasadau, gan gynnwys ffenestri dormer ar y llawr uchaf a ffenestr fae fargodol ar y llawr cyntaf. Mae nodweddion y gwaith cerrig yn cynnwys linteri uwchben y drysau a'r ffenestri. Dyddiedig 1898.




Google

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Diddordeb pensaernïol | X | Diddordeb hanesyddol | | Cysylltiad hanesyddol/ diwylliannol | X | Gwerth o ran cymeriad y grŵp/yr anheddiad | X | Adeiladau lleol sy'n hen neu'n brin | |

Cyfiawnhad dros Ystyried: Adeilad mawreddog ar safle amlwg ar y ffordd i mewn i'r Bryn. Mae'n adeilad anarferol a gwreiddiol ei olwg yn bennaf ar y ffordd i mewn i'r pentref.

Nodiadau:

| Ward:<br><br>Bryn a Chwmafan | Anheddiad:<br>Cwmafan | Enw'r Adeilad: Eglwys Gatholig Sant Philip Evans | |
|---|---|---|---|
| Cyf: BCA011 | Cam Dilysu I | Cam II | Cyfeirnod Grid: E278793 N192736 |
| Cyfeiriad: Heol Salem | | | |

Cynllun o Leoliad y Safle



Disgrifiad: Capel bach ynghanol rhes o dai preswyl, gyda gwedd flaen addurniadol iawn (Gweler disgrifiad Coflein isod),




| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Diddordeb pensaernïol | X | Diddordeb hanesyddol | | Cysylltiad hanesyddol/ diwylliannol | X | Gwerth o ran cymeriad y grŵp/yr anheddiad | X | Adeiladau lleol sy'n hen neu'n brin | |

Cyfiawnhad dros Ystyried: Capel (Capel Methodistaidd Salem gynt) trawiadol sydd wedi cadw ei nodweddion gwreiddiol ac sydd ynghanol rhes o dai ar ffordd a enwyd ar ei ôl.

Nodiadau: Coflein: Adeiladwyd Capel Methodistaidd Salem yn 1901 yn y dull Is-glasurol gyda mynedfa yn y talcen. Lluniwyd y ffasâd blaen â haenau o feini garw gyda gorffeniad cerrig nadd o amgylch agoriadau'r drws a'r ffenestri. Mae gan y drws, sydd yn y canol, architraf carreg trwm gyda chorbelau wedi'u cerfio yn cynnal pediment trionglog. Bob ochr i'r drws, mae dwy ffenestr dal, pen crwn gyda meini clo wedi'u cerfio yn yr un dull â'r corbelau gyda phedimentau trionglog bychain ar eu pennau. Yng nghanol y talcen, mae dwy ffenestr pen fflat wedi'u gwahanu gan golofn gerfiedig integrol wedi'i haddurno â dail, gyda phediment trionglog arall ar ei phen.

<table>
<tr><td>Ward:<br><br>Bryn a Chwmafan</td><td>Anheddiad:<br>Cwmafan</td><td colspan="3">Enw’r Adeilad: Y Rock - Capel yr Annibynwyr</td></tr>
<tr><td>Cyf: BCA012</td><td colspan="2">Cam Dilysu I</td><td>Cam II</td><td>Cyfeirnod Grid: E279263<br>N193233</td></tr>
<tr><td colspan="5">Cyfeiriad: Pwll y Glaw</td></tr>
</table>

Cynllun o Leoliad y Safle



